



Cyfarfod

PWYLLGOR IAITH

Dyddiad ac Amser

10.00 y.b., DYDD MAWRTH, 25AIN MEHEFIN, 2024

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

NODER

Am fynediad cyhoeddus, cysylltwch â ni

Pwynt Cyswllt

Rhodri Jones

01286 679556

rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru

PWYLLGOR IAITH

AELODAETH (15)

Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Rhys Tudur
Elfed Wyn ap Elwyn
Jina Gwyrfai
Gwynfor Owen
Meryl Roberts

Menna Baines
Alan Jones Evans
Olaf Cai Larsen
Llio Elenid Owen
Elfed Williams

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Anne Lloyd-Jones
Peter Thomas
Sedd Wag

Hefin Underwood
Sedd Wag

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

Aelod arall a wahoddir

Y Cyngorydd Menna Trenholme, Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol– Y Gymraeg

R H A G L E N

1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2024-2025.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2024-2025.

3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

5. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

6. COFNODION

4 - 10

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 23 Ebrill, 2024 fel rhai cywir.

7. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG - Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 11 - 18

I gyflwyno gwybodaeth am gyfraniad y Gwasanaethau Cymdeithasol i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg.

8. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD AR WEITHREDIAD Y SAFONAU IAITH 19 - 44

Cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol draft i'r Aelodau er mwyn iddynt argymhell i'r Aelod Cabinet gymeradwyo cyhoeddu'r Adroddiad.

9. PROSIECT ENWAU LLEOEDD CYNGOR GWYNEDD

45 - 50

I gyflwyno gwybodaeth ar gynnydd Prosiect Enwu Lleoedd Cyngor Gwynedd.

PWYLLGOR IAITH: DYDD MAWRTH, 23 EBRILL 2024

YN BRESENNOL:

Y Cynghorwyr:

Elfed Wyn ap Elwyn, Llio Elenid Owen, Rhys Tudur, Jina Gwyrfai, Gwynfor Owen, Alan Jones Evans, Elfed Williams, Anne Lloyd Jones, Peter Thomas ac Hefin Underwood.

Swyddogion: Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Nia Haf Lewis (Ymgynghorydd Iaith), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

HEFYD YN BRESENNOL:

Eitem 5: Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr) ac Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol).

Eitem 6: Sioned Eirian Williams (Pennaeth Adran Economi a Chymuned).

Eitem 7: Iwan Hywel (Pen Swyddog Menter Iaith Gwynedd).

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Olaf Cai Larsen a Menna Baines, Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol) a Bet Huws (Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg).

Diolchwyd i'r Cynghorydd Sasha Williams am ei chyfraniad i'r Pwyllgor dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Croesawyd y Cynghorydd Rhys Tudur fel Aelod newydd i'r Pwyllgor.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorydd Elfed Wyn ap Elwyn ar gyfer Eitem 7 gan ei fod wedi bod yn cydweithio gyda Menter Iaith Gwynedd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Nid oedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu ac felly ni adawodd y cyfarfod.

3. MATERION BRYD

Ni dderbyniwyd unrhyw fater bryd.

4. COFNODON

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2024 fel rhai cywir.

5. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG TÎM ARWEINYDDIAETH A GWASANAETHAU CYFREITHIOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Weithredwr a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol. Tynnwyd sylw yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

Pwysleisiwyd fod y Tîm Arweinyddiaeth yn sefyll yn gadarn ar ddefnydd o'r iaith Gymraeg gan beidio cyfaddawdu, gan ei fod yn gosod cynsail ar gyfer gweddill y Cyngor. Mynegwyd rhwystredigaeth nad yw cyfleusterau Cymraeg digonol yn cael ei ddefnyddio mewn cyfarfodydd a gynhelir gan Lywodraeth Cymru gan ymhelaethu bod trafodaethau yn aml yn cael eu cynnal yn y Saesneg. Cadarnhawyd bod Cyngor Gwynedd yn arwain ar sicrhau bod cyfleusterau digonol yn cael eu defnyddio mewn cyfarfodydd ac o'r herwydd, tynnwyd sylw at lythyr a yrrwyd i Weinidog yr Iaith Gymraeg yn Llywodraeth Cymru i ddatgan pryder y Tîm Arweinyddiaeth am y sefyllfa bresennol.

Adroddwyd bod y Tîm Arweinyddiaeth a'r Cyngor yn cydweithio gyda nifer o gyrff cenedlaethol a rhanbarthol. Sicrhawyd yr aelodau bod swyddogion yn annog y cyrff hynny i geisio efelychu polisi iaith Cyngor Gwynedd a hyrwyddo defnydd mewnol o'r Gymraeg. Rhannwyd enghraifft o hyn sef bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r UwchYmgynghorydd Iaith a Chraffu yn aelodau o Grŵp Llywio a sefydlwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg er mwyn datblygu modelau polisi i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Eglurwyd bod y Grŵp, sy'n cynnwys cynrychiolaeth gan nifer o sefydliadau, yn caniatáu i swyddogion y Cyngor rannu profiadau megis datblygu polisi iaith, dulliau recriwtio, defnydd mewnol y Cyngor o'r Gymraeg, hyfforddiant ac anogaeth a gynigir i staff er mwyn datblygu eu hyder yn y Gymraeg. Ymhelaethwyd bod yna gynrychiolaeth o'r Cyngor ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn gan nodi bod y Bwrdd wedi bod yn gweithio ar brosiect yn ymwneud gyda materion recriwtio gweithlu diweddar er mwyn denu aelodau staff Cymraeg. Soniwyd hefyd bod y Cyngor yn cydweithio gyda Menter Iaith Gwynedd er mwyn datblygu prosiectau.

Esboniwyd bod gan y Cyfarwyddwr Statudol (Gwasanaethau Cymdeithasol) gyfrifoldebau penodol o ran hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn y sector gofal. Eglurwyd y disgwylir bod pob awdurdod lleol a Bwrdd lechyd yng Nghymru, yn penodi uwch arweinydd yn 'bencampwr' y Gymraeg fel rhan o raglen waith 'Mwy Na Geiriau', gan gadarnhau mai'r Cyfarwyddwr Statudol (Gwasanaethau Cymdeithasol) sy'n arddel y rôl honno yng Ngwynedd. Cadarnhawyd ei fod yn ofynnol yn ôl Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Llesiant (Cymru) 2014 i'r 'bencampwr' sicrhau defnydd rhagweithiol o'r Gymraeg fel ei fod ar gael heb i ddefnyddwyr gorfod gofyn amdano. Pwysleisiwyd mai dyma yw'r arferiad o fewn Cyngor Gwynedd ers nifer o flynyddoedd a bod y Cyfarwyddwr yn defnyddio ei rôl fel 'bencampwr' a Chadeirydd 'Mwy Na Geiriau' er mwyn cynorthwyo eraill i fod yn rhagweithiol yn y Gymraeg. Ymhelaethwyd ei fod hefyd wedi bod yn feirniad ar wobrau cenedlaethol Gofal Cymdeithasol Cymru ar y defnydd o'r iaith Gymraeg yn y sector gofal yn ddiweddar.

Cydnabuwyd bod y defnydd o Saesneg o fewn technoleg gwybodaeth wedi bod yn her i'r Cyngor yn y blynyddoedd diwethaf. Er hyn, ymfalchiwyd bod y mwyafrif helaeth o staff y Cyngor sy'n defnyddio cyfrifiaduron fel rhan o'u swyddi, yn gwneud hynny gyda meddalwedd Gymraeg ar eu dyfeisiau. Manylwyd bod hyn yn galluogi i swyddogion weithio ar e-byst, Microsoft Office a mwy drwy gyfrwng y Gymraeg. Nodwyd bod y newid hwn yn un sydd wedi bod yn peri gofid i rai aelodau staff, ond mae'r staff hynny yn hapus gyda'r meddalwedd wedi iddynt ddod i'r arfer ag o.

Adroddwyd bod y Gwasanaeth Cyfreithiol yn dîm o 25 swyddog sy'n gweithio ym maes cyfreithiol, etholiadau, cefnogi'r crwner yn ogystal â dyletswyddau priodoldeb sydd ynghlwm â'r Pwyllgor Safonau a rôl y Swyddog Monitro.

Cadarnhawyd bod y Gwasanaeth Cyfreithiol yn hybu'r Gymraeg drwy ddarparu gwasanaeth i nifer o brif sefydliadau rhanbarthol a darparu cefnogaeth gyfansoddiadol

iddynt fel rhan o rôl Cyngor Gwynedd fel yr awdurdod lletya.. Manylwyd bod y Cyngor yn defnyddio'i gynrychiolaeth o fewn y sefydliadau rhanbarthol hyn i gynnal cyfarfodydd a pharatoi dogfennaeth ddwyieithog gyda'r flaenoriaeth i'r Gymraeg.

Eglurwyd bod y gwasanaeth cyfreithiol hefyd yn cefnogi swyddogion y gwasanaeth etholiadau, gan ymateb i ddeddfwriaethau newydd yn barhaus drwy ddiweddarau polisïau. Nodwyd bod y Cyngor yn tynnu sylw'r llywodraeth a chyrrff eraill at unrhyw angen ieithyddol Cymraeg sydd yn ddiffygiol er mwyn sicrhau bod darpariaeth o'r Gymraeg ym mhob agwedd o'r gwaith ble mae modd.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod sefyllfa recriwtio'r gwasanaeth cyfreithiol wedi gwella yn ddiweddar gan eu bod wedi llwyddo i ddenu swyddogion cymwysedig sy'n meddu â sgiliau Cymraeg. Ymhelaethwyd bod y gwasanaeth hefyd wedi bod yn rhan o raglen Cynllun Yfory a phrentisiaid er mwyn addysgu sgiliau angenrheidiol i swyddogion ifanc newydd gan ddarparu gwasanaethau cyfreithiol yn ddwyieithog i'r dyfodol. Cydnabuwyd bod y gwasanaeth yn defnyddio gweithwyr dros dro o'i bryd i'w gilydd sydd ddim yn meddu ar sgiliau ieithyddol Cymraeg. Pwysleisiwyd eu bod yn cael eu cyflogi am gyfnod byr pan mae angen arbenigedd penodol gan nad yw'r arbenigedd ar gael gan swyddogion y Cyngor. Nodwyd bod y gwasanaeth yn symud i ffwrdd o ddefnyddio gweithwyr dros dro oherwydd llwyddiannau recriwtio ond mae'n annhebygol na fyddent yn stopio cael eu defnyddio'n gyfan gwbl oherwydd natur y gwaith mae'r gwasanaeth yn ymwneud ag o.

Diolchwyd am yr adroddiad ac am sicrhau bod y Cyngor yn arwain ar faterion ieithyddol yn Genedlaethol.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.

6. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: ADRAN ECONOMI A CHYMUNED

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Adran Economi a Chymuned a thynnwyd sylw yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

Tynnwyd sylw at raglen Arfor gan nodi bod Cyngor Gwynedd yn cymryd rôl arweiniol ar Fwrdd y prosiect. Eglurwyd bod y Bwrdd yn y broses o werthuseffiaith y prosiectau ar ardaloedd a thrigolion er mwyn derbyn cyllideb i'r dyfodol. Atgoffwyd bod prosiect Arfor wedi ei ariannu hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol 2024-25 ac felly mae'n bwysig gweithio ar geisio derbyn ymrwymiad ariannol i'r dyfodol ar hyn o bryd. Cadarnhawyd bod cydweithio pwysig yn mynd rhagddo rhwng siroedd rhanbarth Arfor sef Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin.

Adroddwyd bod yr Adran wedi llwyddo i ddenu arian gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth Prydain, gan gadarnhau fod cronfa grant i fusnesau ar gael o'r gyllideb hon yn ychwanegol i brosiect Arfor. Eglurwyd bod telerau ac amodau a ddatblygwyd drwy brosiect Arfor wedi cael eu cynnwys ar gyfer ceisiadau busnesau am arian drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin hefyd. Eglurwyd y golyga hyn bod rhaid i gwmnïau amlygu'r defnydd o Gymraeg a wneir fel rhan o'u busnes yn ogystal â rhannu sut mae'r cwmni yn hybu'r iaith Gymraeg, wrth iddynt wneud cais am arian. O ganlyniad i hyn nodwyd bod 79 busnes o Wynedd wedi cwblhau asesiad 'Cynnig Cymraeg' Comisiynydd y Gymraeg yn ystod 2023/24 gydag 12 o'r cwmnïau hynny eisoes wedi derbyn yr achrediad. Cydnabuwyd na fydd yr un anogaeth ar gael pan nad oes grantiau busnes ar gael. Er hyn, pwysleisiwyd bod gwaith yn mynd rhagddo er mwyn gallu cynnig cymorth i fusnesau bychan i gyrraedd yr achrediad gan Comisiynydd y Gymraeg. Ategwyd mai'r gobaith yw y bydd cwmnïau yn cymryd y cyfle i ymgeisio am achrediad 'Cynnig Cymraeg' yn wirfoddol i'r dyfodol ond

nodwyd nad oes modd i'r Adran eu gorfodi. Mynegwyd siomiant mai Gwynedd yw'r unig Sir yn y gogledd sydd wedi gosod yr amod hwn ar geisiadau am grant busnes drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Cadarnhawyd bod yr Adran wedi lawnsio Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035 sef Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy ar gyfer yr ardal ar y cyd gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Atgoffwyd mai un o flaenoriaethau clir y cynllun yw hybu perchnogaeth leol ac i ddatblygu cyfleoedd i amlygu'r iaith Gymraeg, ein diwylliant a'n treftadaeth. Pwysleisiwyd bod gwaith yn mynd rhagddo i fonitro'r effaith mae'r cynllun yn ei gael ar y flaenoriaeth honno ar hyn o bryd. Ymhelaethwyd bod y flaenoriaeth hon wedi cael ei chynnwys fel cymal ac i'r adran gytuno i gefnogi digwyddiadau, er mwyn sicrhau bod y digwyddiad yn cyrraedd gofynion y gofynion ieithyddol a diwylliannol hynny.

Esboniwyd bod yr Adran wedi mabwysiadu mesurydd newydd o fewn y maes twristiaeth marchnata a digwyddiadau, sef 'Canran o drigolion y Sir sy'n credu fod twristiaeth yn cael dylanwad cadarnhaol ar y Gymraeg a diwylliant Cymru'. Nodwyd bod y mesurydd newydd hwn yn cael ei gynnwys mewn holiadur blynyddol i drigolion Gwynedd. Eglurwyd y gobeithircasglu data o'r holiadur er mwyn mesur effaith y gwaith a wneir o fewn y maes. Tybir mai dyma yw'r dull gorau o gael atebion cadarnhaol gan ei fod yn galluogi cymunedau i ymrwymo cyn gymaint neu cyn lleied ac maent yn ei ddymuno.. Ymhelaethwyd fod y mesurydd wedi cael ei dreialu gan y Cyngor ar ran Llywodraeth Cymru y llynedd a gobeithir bydd siroedd eraill yn ymgorffi'r mesurydd yn y dyfodol.

Mewn ymateb i ymholiad ar sut mae cydweithio gyda busnesau gwyliau, lletyau gwyliau a meysydd carafanau er mwyn sicrhau bod yr iaith yn amlwg yn eu diwylliant, cadarnhaodd Pennaeth yr Adran bod gwaith diddorol yn mynd rhagddo er mwyn annog busnesau i fod yn llysgenhadon yr iaith Gymraeg. Cadarnhawyd bod hyn yn waith sydd wedi cael ei fabwysiadu o fewn y Cynllun Economi Ymweld newydd ac mae gofyn i lysgenhadon gael ymwybyddiaeth o ddiwylliant ac iaith yn ogystal â pharchu'r tirwedd a'r amgylchedd. Mynegwyd gobaith bydd hyn yn cryfhau'r iaith gan y bydd ymwelwyr yn gweld y Gymraeg yn glir wrth iddynt ddod i ymweld â'r ardal. Pwysleisiwyd bod y cynllun wedi cael ei dreialu o fewn ardal Parc Cenedlaethol Eryri a bod canlyniadau cadarnhaol wedi dod i law ac felly mai'r gobaith yw y bydd y cynllun hwn yn llwyddiant ar hyd Gwynedd gyfan, wrth i becyn gwymbodaeth gael ei rannu â busnesau.

Adroddwyd bod yr Adran yn parhau i gefnogi cwmnïau a sefydliadau o fewn y maes amgueddfeydd a'r celfyddydau gan nodi bod effaith ieithyddol a diwylliannol yn rhywbeth sy'n cael sylw. wrth fynd ati i'w cefnogi. Cyfeiriwyd hefyd at brosiect Tirlun Llechi Gogledd Orllewin Cymru. Ymhelaethwyd bod yr adran yn cydweithio gyda Phrifysgol Bangor ar gynllun tymor hir, a bydd cryn dipyn o amser yn mynd rhagddo cyn gweld newidiadau ac effaith y cynllun hwn. Esboniwyd bod ennyn diddordeb gwirfoddolwyr sydd yn meddu a sgiliau ieithyddol Cymraeg yn gallu bod yn her i'r Adran. Cydnabuwyd bod hyn yn broblem sy'n peri gofid ers rhai blynyddoedd a'i fod yn her fwy mewn rhai ardaloedd penodol o fewn y Sir. Pwysleisiwyd bod yr Adran yn cefnogi'r ardaloedd hynny drwy gynnig mwy o gyfleoedd gwirfoddoli drwy amrywiol gynlluniau ar y cyd gydag ysgolion a cholegau er mwyn ennyn diddordeb siaradwyr Cymraeg i wirfoddoli. Rhannwyd enghraifft o ble mae'r cynlluniau hyn wedi bod yn llwyddiannus megis Storiell ym Mangor ble mae mwy o wirfoddolwyr Cymraeg yn siarad erbyn hyn.

Rhannwyd enghreifftiau o sut mae llyfrgelloedd Gwynedd yn cyfrannu i hybu'r iaith Gymraeg yn ogystal â darparu gwasanaeth yn ddwyieithog. Pwysleisiwyd bod y gweithgareddau sydd yn cael eu cynnal yn y llyfrgelloedd yn boblogaidd iawn ymysg trigolion Gwynedd a manylwyd bod adborth cadarnhaol gan fynychwyr di-gymraeg o'r ffordd mae'r llyfrgell leol yn hybu'r Gymraeg yn effeithiol. Soniwyd bod gwasanaeth y llyfrgelloedd ar gael yn ddwyieithog ar draws y Sir ond cydnabuwyd bod rhai sesiynau yn

cael eu cynnal ble nad oes modd cael yr holl ddeunyddiau yn Gymraeg yn achlysurol. Eglurwyd bod yr Adran yn ymwybodol o'r broblem ac yn ystyried bod yr her yn codi mewn rhai ardaloedd ble mae niferoedd gwirfoddolwyr Cymraeg yn isel. Pwysleisiwyd bod yr Adran yn ymdrechu i gefnogi pawb sydd eisiau cynnal gweithgareddau o fewn y llyfrgelloedd i allu gwneud hynny yn ddwyieithog. Cadarnhawyd bod polisi iaith y Cyngor yn sicrhau nad oes unrhyw weithgaredd yn cael ei wneud yn uniaith Saesneg, gan gydnabod bod rhai elfennau yn cael eu cynnal yn ddi-gymraeg mewn achlysuron prin.

Adroddwyd bod cynnydd yn niferoedd staff yr adran sydd wedi cwblhau hunanasesiad ieithyddol gan bwysleisio bod 96.65% o staff yr adran wedi cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi. Nodwyd bod hyn yn gynnydd o'r 93% adroddwyd arno yn 2023. Cadarnhawyd bod yr Adran wedi wynebu heriau wrth geisio cyflogi swyddogion traethau a morwrol dros dro yng nghyfnod yr haf ac wedi gorfod penodi timoedd ac unigolion di-gymraeg yn y gorffennol. Ymhelaethwyd mai'r her sy'n codi o hyn yw nad ydynt yn gyflogedig â'r Cyngor am gyfnod ddigon hir i gael eu trochi yn yr iaith. Pwysleisiwyd bod y Rheolwr Morwrol yn cymryd camau gweithredol er mwyn sicrhau bod swyddogion yn siarad Cymraeg gyda'i gilydd a chwsmeriaid ar bob cyfle.

Manylwyd bod materion ariannol yn rhwystr sy'n wynebu'r Adran ar hyn o bryd. Eglurwyd bod cyfran helaeth o waith yr Adran yn ddibynnol ar grantiau ac mae hynny yn ffordd dda o osod amodau ieithyddol o fewn y Sir. Pwysleisiwyd bod digwyddiadau diwylliannol cyhoeddus rheolaidd yn chwarae rôl bwysig wrth i bobl ymarfer eu sgiliau iaith yn gyhoeddus yn enwedig os nad oes ganddynt fodd arall o wneud hynny. Cydnabuwyd bod sicrhau parhad gwasanaeth neu ddigwyddiadau wrth i amrywiol grantiau ddod i ben yn gallu bod yn heriol i'r Adran yn enwedig o ystyried heriau ariannol cyffredinol sy'n wynebu'r Cyngor ar hyn o bryd. Pwysleisiwyd bod yr Adran yn parhau i dargedu cyllideb grant yn rheolaidd er mwyn sicrhau cefnogaeth i gymunedau i'r dyfodol.

Diolchwyd am yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.

7. DIWEDDARIAD AR WAITH MENTER IAITH GWYNEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Ben Swyddog Menter Iaith Gwynedd. Tynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

Atgoffwyd yr Aelodau bod y Fenter bellach wedi ymadael a'r enw 'Hunaniaith' gan ail-frandio yn enw 'Menter Iaith Gwynedd' a bod y fenter wedi cael ei gofrestru fel Cwmni nid er elw gyda'r Tŷ Cwmnïau o dan arweiniad pedwar o gyfarwyddwyr gwirfoddol. Ymhelaethwyd mai ei brif fwriad yw cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob rhan o'u bywydau ac ym mhob cymuned ledled Gwynedd.

Esboniwyd bod un aelod o staff y Fenter wedi gadael er mwyn gweithio gydag adran arall o fewn Cyngor Gwynedd. Cydnabuwyd nad yw'r swydd wag hon wedi cael ei lenwi ar hyn o bryd er mwyn esmwytho'r broses o allanoli o'r Cyngor. Nodwyd bod Cyngor Gwynedd yn cynorthwyo i gyflogi swyddog newydd o fewn ardal Meirionnydd ar gyfer 2024/25

Eglurwyd bydd y Fenter yn troi'n annibynnol o fis Ebrill 2025, gyda'r tri swyddog cyfredol y Fenter yn parhau i fod yn gyflogedig gan y Fenter, yn ogystal â'r swyddog newydd yn ardal Meirionnydd. Cydnabuwyd bod oediad wedi bod yn y trosglwyddiad allanoli hwn, ond eglurwyd bod hynny wedi bod yn sgil cymhlethodau ymrwymadau pensiwn i swyddogion.

Pwysleisiwyd bod Bwrdd Prosiect yn cyfarfod yn rheolaidd gyda'r Pennaeth Cyllid a Phennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i ddatrys y trafferthion sy'n codi.

Adroddwyd ar ymgyrch sy'n cael ei gyflwyno ym mis Mai sy'n ffocysu ar bobl sydd wedi symud i'r ardal a dysgu'r Gymraeg, gan rannu storiâu astudiaethau achos o sut mae unigolion wedi llwyddo i fagu ymdeimlad o berthyn i gymdeithasau Gwynedd. Ymhelaethwyd bod ail gynllun ar y gweill gyda chymorth 'Gareth yr Orangutang' er mwyn egluro hanes yr iaith Gymraeg gyda phobl ifanc a rhannu syniadau am sut i ddefnyddio technoleg yn Gymraeg, gan bwysleisio mai gwneud defnydd o'r iaith sy'n bwysig, nid poeni am unrhyw gamgymeriadau a wneir.

Rhodddwyd diweddarwyd bod y Fenter wedi bod yn cefnogi canolfannau trochi i gefnogi teuluoedd. Eglurwyd bod swyddogion yn darparu cyflwyniadau digidol i holl rieni mynychwyr canolfannau trochi yn dymhorol. Mewn ymateb i heriau mae'r addysgwyr yn ei gael ar ôl bod mewn canolfannau trochi ac yn dychwelyd i'r ysgol, cadarnhawyd bod y Fenter wedi comisiynu awdur i greu cynhyrchiad gyda mewnbwn y plant cyn ei berfformio i'r rhieni. Pwysleisiwyd mai'r Fenter bydd yn berchen y cynhyrchiad ac felly bydd modd ail-greu'r cynllun hwn mewn ardaloedd eraill yn ôl yr angen. Rhannwyd syniad y gallai'r Fenter ddefnyddio enghreifftiau o deuluoedd sydd wedi meithrin y Gymraeg yn dilyn y cynlluniau hyn er mwyn ysbrydoli eraill yn y dyfodol.

Ymfalchiwyd bod y Fenter wedi derbyn adborth cadarnhaol iawn i gig a gynhaliwyd mewn ysgolion uwchradd yn ddiweddar. Eglurwyd bod Tara Bandito yn mynd o gwmpas i wneud gweithdai lles a rhannu gwybodaeth am ferched mewn cerddoriaeth cyn perfformio gig yn y prynhawn gyda'r band Skylark. Rhannwyd adborth gan un ysgol bod disgyblion wedi bod yn gwyllo ar glipiau o'r artistiaid yn annibynnol, wrth iddynt fynychu gwrs rydd yn y dyddiau yn dilyn y perfformiad, gan awgrymu bod plant a phobl ifanc yn mynd i gael eu denu at ddiwylliant Gymraeg modern pan maent yn cael eu cyflwyno iddo. Nodwyd bod y digwyddiad hwn wedi cael ei gynnal mewn chwe ysgol uwchradd yng Ngwynedd.

Adroddwyd bod y Fenter wedi cyd-ariannu swydd gymunedol gyda chymorth yr Urdd ac Adran Ieuenctid Cyngor Gwynedd. Esboniwyd ei bod yn swydd benodol er mwyn sefydlu aelwydydd Urdd newydd o fewn cymunedau gyda'r bwriad o dargedu disgyblion uwchradd blwyddyn 7 a 8. Cadarnhawyd bod aelwydydd newydd wedi agor yng Nghaernarfon ac yn y Felinheli yn ogystal â chlybiau'r Urdd mewn ysgolion megis Ardudwy. Manylwyd ar glwb yr Urdd Ardudwy, gan nodi bod nifer o'r plant ddim yn dod o gartrefi Cymreig ond eu bod wedi dechrau mynychu'r aelwyd wrth iddo fynd yn fwy poblogaidd. Diolchwyd i Cadi Roberts am ei gwaith o fewn y maes yma. Cadarnhawyd mai bwriad i'r dyfodol yw sicrhau bod gwirfoddolwyr yn dod ymlaen i gynorthwyo'r aelwydydd yn rheolaidd fel eu bod yn gallu rhedeg heb i swyddog cyflogedig fod yn bresennol pob tro. Gobeithiwyd y gellid denu gwirfoddolwyr drwy ganolbwyntio ar ardaloedd penodol gan geisio sicrhau bod digon o bobl yn helpu er mwyn i wirfoddoli peidio teimlo ei fod yn feichus.

Cyfeiriwyd at Lwyfan Llŷn gan fod y Fenter wedi cefnogi'r cynllun hwn wrth iddo gychwyn yn sgil Covid-19. Cadarnhawyd bod y grŵp yn cyfarfod yn wythnosol yn Sarn Meylltelyn. Tynnwyd sylw bod y cynllun hwn yn enghraifft o sut all y Fenter gefnogi cymunedau pan mae bwlbwch i'w weld yn y gymdeithas, a'i adeiladu i fod yn hunangynhaliol o fewn cymunedau heb fod yn ddibynnol ar y Fenter wrth iddo ddatblygu. Gobeithiwyd bydd y llwyddiant yma yn cael ei weld gyda Theatr Derek Williams yn y Bala wrth i'r Fenter gydweithio gyda nhw i ail-sefydlu clwb drama.

Diolchwyd i Meirion Owen, swyddog y Fenter yn ardal Bangor am drefnu digwyddiadau Dydd Gŵyl Dewi ym Mangor eleni. Pwysleisiwyd bod y Fenter wedi trefnu nifer o ddigwyddiadau yn ogystal â gorymdaith gan sicrhau bod nifer o fusnesau a sefydliadau yn cydweithio gyda'i

gilydd. Ymhelaethwyd bod nifer o sesiynau i ddysgwyr yn cael eu cynnal yn rheolaidd ym Mangor a phwysleisiwyd bod adborth cadarnhaol thu hwnt i'r sesiynau hyn.

Eglurwyd bod y Fenter yn cydweithio gyda Chymdeithas Affrica Gogledd Cymru gan fod y Gymdeithas yn tyfu wrth i fwy o deuluoedd symud i Fangor gyda myfyrwyr hŷn sy'n mynychu Prifysgol Bangor. Nodwyd bod cyfres o ddigwyddiadau 'Croeso i'r Gymraeg' wedi eu trefnu ar gyfer aelodau'r Gymdeithas a sesiynau cyffelyb i ddefnyddwyr gwasanaeth Adfer yn yr ardal. Esboniwyd bod y sesiynau hyn yn cael eu defnyddio fel cyflwyniad cychwynol i'r iaith a gobeithir y bydd y mynychwyr yn dymuno derbyn gwersi Cymraeg ffurfiol i'r dyfodol.

Cydnabuwyd bod cyfran helaeth o waith y Fenter yn canolbwyntio ar ardaloedd penodol megis Llŷn, Bangor-Ogwen a Phenllyn â'r Bala. Eglurwyd bod hyn yn fwriadol er mwyn gweithio ar lefel leol i greu gwahaniaeth y gellir eu tystiolaethu. Pwysleisiwyd mai pwrpas y fenter yw 'Hybu a Hyrwyddo'r Gymraeg ar draws Gwynedd gyfan' a bwriedir allanoli i gynyddu capasiti er mwyn galluogi'r Fenter i ganolbwyntio ar bob ardal yng Ngwynedd.

Cytunwyd bod angen cydweithio gyda phobl ifanc sydd ar fin gorffen yn yr ysgolion uwchradd er mwyn eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy cyson. Esboniwyd mai un her yw bod holl ddeunydd cyfryngau cymdeithasol yn Saesneg a bod hynny yn dylanwadu arnynt. Pwysleisiwyd bod y Fenter wedi bod yn gweithio ar nifer o gynlluniau megis cystadleuaeth Dydd Miwsig Cymru er mwyn annog pobl ifanc hŷn i ddefnyddio'r Gymraeg. Manylwyd ar gynllun cyffroes gydag MSparc ble mae meddalwedd newydd ar gyfer gemau fideo sy'n sicrhau bod defnyddwyr yn gallu sgwrsio gyda'i gilydd yn Gymraeg wrth iddynt chwarae ar ddyfeisiadau.

Diolchwyd am yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.

Dechreuodd y Cyfarfod am 10:00yb a gorffennodd am 11:45yp.

CADEIRYDD

Cyfarfod	Pwyllgor Iaith
Dyddiad	25 Mehefin 2024
Teitl	Cynllun Hybu'r Gymraeg – y Gwasanaethau Cymdeithasol
Pwrpas	Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad y Gwasanaethau Cymdeithasol i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg
Awdur	Marian Parry Hughes – Pennaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd Aled Davies – Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant

Cwestiwn 1. Hybu a hyrwyddo

Sut mae eich adran yn mynd y tu hwnt i gynnig gwasanaethau yn ddwyieithog ac yn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith sirol (pa weithgareddau a phrosiectau sydd wedi eu cynnal yn ystod y flwyddyn ddwytha sydd yn codi statws y Gymraeg a sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned)?

Mae strategaeth iaith y Cyngor yn gosod blaenoriaethau ar gyfer hybu'r Gymraeg mewn pum maes:

1. iaith y blynyddoedd cynnar,
2. iaith dysgu,
3. iaith gwaith a gwasanaeth,
4. iaith y gymuned
5. Ymchwil a Thechnoleg

Mae'r strategaeth gyfredol i'w gweld yma:

[Atodiad-2-Strategaeth-iaith-2023-2033.pdf \(llyw.cymru\)](#)

Ateb:

Iaith y blynyddoedd cynnar

Mae Strategaeth Iaith Gwynedd (y strategaeth) yn nodi'r angen i godi ymwybyddiaeth rhieni am y gyfundrefn addysg Gymraeg ac amlygu'r cyfleon sydd ar gael i gyflwyno'r Gymraeg i blant cyn cyrraedd oed ysgol. Rydym yn gyfrifol am arwain ar sicrhau darpariaeth addysg feithrin (10 awr yr wythnos i blant tair oed) a darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg (12.5 awr yr wythnos i blant dwy oed). Mae'r holl ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn trochi plant ifanc yn yr iaith o'u cyflwyniad cyntaf i'r byd addysg. Ers Medi 2023 rydym wedi ymestyn gofal plant dwy oed Dechrau'n Deg i sawl ardal newydd yng Ngwynedd gyda 22 o ddarparwyr gofal plant yn darparu'r gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Rydym hefyd wedi datblygu ap Dechrau'n Deg ar gyfer darparu gwybodaeth i rieni yn y blynyddoedd cynnar. Mae hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth am y Gymraeg yn ogystal â hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Maent ar hyn o bryd yn creu fideos ar yr ap sydd yn uniaith Gymraeg ond gyda is-deitlau Saesneg oherwydd bod diffyg adnoddau Cymraeg ar gael yn ogystal â hybu rhieni i siarad yr iaith Gymraeg gyda'i plant.

Rydym hefyd yn cydweithio'n agos gydag aelodau CWLWM (5 sefydliad arweiniod cenedlaethol gofal plant yng Nghymru) i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg ar draws lleoliadau gofal yng Ngwynedd gan

gynnwys meithrinfeydd, cylchoedd meithrin, gwarchodwyr plant, clybiau ar ôl ysgol ac ati. Mae amrywiaeth o adnoddau, cymorth a chefnogaeth ar gyfer hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg ar gael ar wefannau'r cyrff arweiniol ac rydym yn eu hyrwyddo a'u rhannu gyda lleoliadau a darparwyr gofal yn lleol. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnig grantiau o £100 i warchodwyr plant preifat newydd sy'n ddi-Gymraeg ar gyfer prynu adnoddau Cymraeg i'r ddarpariaeth. Mae'r Uned wedi arwain ar sefydlu fframwaith caffael sef rhestr o ddarparwyr gofal plant cymeradwy. I fod ar y rhestr bu'n rhaid i'r darparwyr dystio'i eu bod yn gallu darparu yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog ac erbyn hyn mae 72 o ddarparwyr Gwynedd ar y rhestr. Mae'r Gwasanaeth Blynnyddoedd Cynnar wedi cydweithio gyda Mudiad Meithrin i gynnal sesiynau clwb cwtsh i rieni ar lein. Mae yn gwrs blasu Cymraeg am ddim sydd wedi anelu at ddysgwyr newydd ac sy'n canolbwyntio ar iaith magu plant yn y cartref.

Mae Cydlynwyr Cymorth Iaith Gymraeg yn gweithio i'r 5 sefydliad ac mae pob sefydliad yn gweithio ar brosiectau amrywiol er mwyn hybu'r Gymraeg ac i ehangu'r nifer o leoliadau Cymraeg yng Ngwynedd. Ymysg y prosiectau hyn, mae:

- [Cynllun CAMAU](#) i annog gweithlu'r sector gofal plant i ddefnyddio a gwella eu sgiliau iaith Gymraeg
- [Cynllun Croesi'r Bont](#) (Mudiad Meithrin) i drochi'r Gymraeg o fewn cylchoedd meithrin a chynyddu pontio ieithyddol gydag ysgolion.

Noda'r strategaeth hefyd fod angen cyfleon anffurfiol i rieni ymarfer a magu hyder yn eu defnydd o'r Gymraeg a bod angen gweithgareddau ar gyfer teuluoedd cyfan er mwyn annog y cyfathrebu a'r siarad rhwng y teulu ac nid dim ond y plant. Mae'r Adran wedi arwain ar sefydlu Fframwaith Darparwyr Gweithgareddau i blant, pobl ifanc a theuluoedd ar draws adrannau'r Cyngor. Hyd yma mae 32 o ddarparwyr gweithgareddau wedi cymeradwyo ar y fframwaith ac yn gallu darparu cyfleon chwarae drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Fframwaith yn cael ei defnyddio ar gyfer comisiynu gweithgareddau hwyliog, creadigol, chwaraeon a chwarae i blant a pobl ifanc.

Drwy gyfnodau gwyliau ysgol 2023-24, bu i'r Adran gomisiynu gweithgareddau hwyliog a chwarae drwy gyfrwng y Gymraeg drwy'r sir. Bu i bartneriaid fel, Sbarduno, Byw'n Iach, Logis Bach, Urdd, Mudiad Meithrin, With Gobaith, Gwallgofiaid, Theatr y Ddraig, Canolfan Gerdd William Mathias, Hyfforddiant Lles Cymru, Codi'r To a Pontio ddarparu ystod amrywiol o weithgareddau drwy'r sir ar gyfer plant dan 5 a'u teuluoedd, plant oed cynradd, a pobl ifanc 11-25 oed. Bu 4,768 o blant gael mwynhad a cyfle i ymuno mewn sesiynau ar draws y Sir yn ystod gwyliau'r haf, gyda 408 yn mynychu sesiynau yn ystod gwyliau hanner tymor. Dros y cyfnod diwethaf mae'r Uned wedi sefydlu gwasanaeth Trelar Chwarae lle mae modd mynd a trelar symudol yn llawn offer chwarae i gymunedau ar draws Gwynedd sy'n darparu cyfleon ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Iaith Dysgu

Noda'r strategaeth fod sicrhau cyfleon dysgu cysylltiedig i waith drwy gyfrwng y Gymraeg, megis prentisiaethau, yn gallu bod yn heriol, a bod hyn yn rhywbeth mae'r Cyngor yn rhoi sylw iddo ar hyn o bryd.

Mae'r adrannau Oedolion a Plant wedi bod yn rhan o Gynllun Prentisiaethau'r Cyngor ers tro ac wedi cael enghreifftiau llwyddiannus. Rydym wedi gweithio gyda'r Swyddogion Talent a Phrentisiaethau i bwysu ar y darparwyr addysg bellach i ddarparu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg ac i gadw at eu gair bod yr adnoddau yma ar gael yn Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r maes prentisiaethau yn faes heriol yn ei hun ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol gan nad oes prentisiaethau gwaith cymdeithasol neu debyg ar gael ar hyn o bryd yng Nghymru. Credwn fod yma

gollod cyfle ac mae gwaith yn digwydd ar hyn o bryd i sefydlu Academi Gofal yma yng Ngwynedd er mwyn darparu llwybr gyrfa broffesiynol glir i unigolion sy'n gofalu gymhwyso fel gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol neu reolwyr gofal y dyfodol. Fel rhan o'r datblygiad hwnnw, bydd y gallu i hyfforddi a chymhwyso'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhan greiddiol o'r Academi.

Un o fwriadau eraill y strategaeth yw i annog mwy o staff y Cyngor i ddysgu'r Gymraeg ac i wella eu sgiliau drwy wneud y gorau o wahanol ddulliau hyfforddi. Mae na 22 aelod staff wedi bod neu wedi trefnu i fynd ar gyrsiau iaith ar draws yr adrannau Oedolion a Plant ers dechrau 2023, yn cynnwys:

- 10 wedi/yn dilyn cyrsiau dysgu'r iaith o'r newydd (lefel mynediad a sylfaen). Mae'r rhain i gyd yn weithwyr rheng flaen sy'n cael cyswllt uniongyrchol gydag unigolion yn y sir gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol, gweithwyr cefnogol a gweithwyr preswyl.
- 5 wedi/yn dilyn cyrsiau cynyddu sgiliau iaith (lefel canolradd ac uwch). Yn yr un modd â'r uchod, mae'r rhain hefyd yn weithwyr rheng flaen sy'n cael cyswllt uniongyrchol ag unigolion y sir.
- 7 wedi/yn dilyn cyrsiau gloywi iaith. Mae'r rhain yn gyfuniad o weithwyr rheng flaen a gweithwyr swyddfa gefn neu weinyddol.

Wrth gwrs, gall rhyddhau amser staff rheng flaen mewn maes sydd â chymaint o heriau recriwtio fod yn hynod o heriol ac mae hyn wedi ei amlygu yn ddiweddar wrth i'r Adran Oedolion ymdrechu i geisio darparu cyrsiau Cymraeg i staff mewn cartref preswyl. Yn anffodus, er fod nifer uchel â diddordeb ar ddechrau'r cwrs, roedd amgylchiadau'n golygu mai nifer fechan oedd yn mynychu erbyn y diwedd. Byddwn yn trafod gyda'r cartref er mwyn deall pam na wnaeth hyn weithio y tro hwn ac yn ceisio dysgu o'r profiadau hynny i'r dyfodol.

Fodd bynnag, mae sicrhau datblygiad sgiliau Cymraeg ymysg y gweithlu yn rhywbeth sydd angen llawer mwy o sylw gan y gwasanaethau cymdeithasol. O ganlyniad i heriau i recriwtio gweithlu gofal yn ogystal â gweithlu arbenigol, mae gennym fwy o staff sydd ddim yn cyrraedd lefel dynodedig eu swyddi wrth i amser fynd rhagddo. Nid yw'n glir beth yw safbwynt y gwasanaethau cymdeithasol, na'r cyngor yn ehangach, ar orfodi hyfforddiant iaith a sicrhau bod gwelliant o fewn cyfnod penodol. Mae hyn wedi ei godi fel mater sydd angen sylw mewn cyfarfod o Grŵp Mwy na Geiriau Gwynedd lle mae cynrychiolaeth o'r Uned Iaith yn eistedd ar y grŵp a byddwn yn parhau i drafod y ffordd ymlaen.

Iaith Gwaith a Gwasanaeth

Rydym eisoes wedi cyfeirio at yr heriau o safbwynt sgiliau iaith ein gweithlu ac anawsterau recriwtio, a gellid ailymweld â'r un wybodaeth mewn perthynas ag amcanion y strategaeth iaith i fod yn mynd tu hwnt i ofynion Safonau'r Gymraeg gan ganolbwyntio ar gynyddu defnydd er mwyn medru profi'r angen yn fwy effeithiol. Dylid ychwanegu, fodd bynnag, fod y gwasanaethau cymdeithasol wedi bod yn rhan o gynllun ymchwil ARFer gan Brifysgol Bangor. Ymchwil i edrych ar sut mae modd dylanwadu ar arferion ieithyddol timau gwaith ydi ARFer, ac mae gennym un tîm gwaith cymdeithasol oedolion ym Mangor wedi bod yn rhan o'r cyfnod treialu diweddaraf ac rydym yn aros i gael deall y darganfyddiadau. Rydym yn gobeithio medru trefnu i gartref gofal gymryd rhan yn y cylch nesaf fel bod modd treialu mewn amgylchedd gwaith gwahanol.

Wrth reswm, mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn faes unigryw lle mae heriau ieithyddol yn benodol broblematig wrth asesu, cefnogi a darparu gwasanaethau. Mae cyfathrebu yn gwbl ganolog i'n gallu i ddeall gwir anghenion unigolion ac wrth ymateb i'r anghenion hynny. Er bod y ddwy adran yn hyderus yng ngallu ein timau gwaith cymdeithasol i ddarparu cefnogaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ac i ystyried y Gymraeg fel rhan o benderfyniadau ar becynnau neu leoliadau gofal,

maethu neu fabwysiadu, nid yw mesur llwyddiant yn hawdd yn hynny o beth. Yn ogystal, mae amgylchiadau lle mae'n rhaid i oedolion neu plant gael eu lleoli yn all-sirol neu mewn lleoliadau lle nad oes darpariaeth Gymraeg. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, bydd cefnogaeth ein Gweithwyr Cymdeithasol yn hollbwysig er mwyn parhau i gyfarch anghenion yr oedolyn neu blentyn.

Mae fframwaith y Llywodraeth i gryfhau gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a gofal - *Mwy na Geiriau* – a'r egwyddor o gynnig rhagweithiol yn greiddiol i'n gallu i ymateb i anghenion unigolion ac i fedru gwerthuso ein llwyddiant yn hyn o beth. Golyga'r cynnig rhagweithiol, mewn geiriau syml, y gallu i adnabod yr angen am wasanaethau Cymraeg a'u darparu yn ddiofyn. Mae grŵp bychan wedi ei sefydlu, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Statudol dros Wasanaethau Cymdeithasol, er mwyn arwain ar y gwaith sy'n deillio o gynllun 5 mlynedd diweddar a'r Llywodraeth yn y maes yma. Mae'r grŵp wedi bod wrthi yn mapio'r camau gweithredu er mwyn adnabod y meysydd sydd angen sylw gennym ac wedi adnabod prif benawdau sydd angen sylw i lywio'n gwaith:

1. Addysgu am y Cynnig Rhagweithiol ymysg rheolwyr ac ymarferwyr
2. Mesur llwyddiant
3. Hyfforddiant iaith
4. Hybu'r Cynnig Rhagweithiol
5. Hyrwyddo defnydd iaith

Rydym wedi bod yn rhoi sylw hefyd i dudalennau gwefan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant gan gadw mewn cof yr angen i gyflwyno gwybodaeth i'r cyhoedd mewn modd allai gynyddu'r siawns o ddewis y Gymraeg yn hytrach na'r Saesneg. Mae hyn yn golygu edrych ar ein defnydd o'r iaith Gymraeg a sicrhau ei fod mor hygyrch a phosibl, heb fod yn or-ffurfiol. Byddwn yn rhoi yr un sylw i dudalennau gwefan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd dros y cyfnod nesaf ac yn eu diweddarau. Mae newyddlen Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn cael ei yrru bob mis, ei uwchlwytho ar wefan y Cyngor a'i rannu ar gyfryngau cymdeithasol ac rydym wedi bod yn rhoi sylw i'r defnydd o'r Gymraeg er mwyn sicrhau ein bod yn annog trigolion i ddarllen y fersiwn honno. Yn ychwanegol, rydym wedi cyfrannu at ymgyrchoedd penodol lle'r ydym wedi bod yn rhan o greu deunydd marchnata, fideos ayb yn y Gymraeg e.e. Galw Gofalwyr neu ymgyrch Maethu Cymru. Mae'n gyfle gwych i bwysleisio defnydd o'r Gymraeg fel iaith gwaith ac yn ffordd o geisio denu siaradwyr Cymraeg i'r maes.

Noda'r strategaeth yr angen i edrych eto ar y gefnogaeth a'r anogaeth sy'n cael ei roi i'r sector breifat ddefnyddio'r Gymraeg ac mae hyn wrth gwrs yn gwbl berthnasol i'r gwasanaethau cymdeithasol sy'n comisiynu rhan fawr o'u darpariaethau gofal drwy ddarparwyr preifat. Mae Rheolwr Comisiynu'r gwasanaeth yn aelod o Grŵp Mwy na Geiriau Gwynedd ac yn darparu persbectif sector breifat yn y trafodaethau hynny. Mae'r gwasanaeth hefyd yn rhoi sylw i gymalau iaith o fewn cytundebau gofal cartref a chytundebau preswyl a nyrsio. Yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, mae'r gwasanaeth wedi dechrau roi sylw i gymalau iaith o fewn cytundebau gofal oedolion a plant gyda'r bwriad o sicrhau eglurder a'u cryfhau i gyd-fynd ag egwyddorion fframwaith Mwy na Geiriau.

Ymchwil a Thechnoleg

Mae Strategaeth Iaith Gwynedd yn cydnabod ei bod yn her sylweddol i'r Gymraeg ddal i fyny efo'r datblygiadau parhaus. Erbyn hyn, mae technoleg yn gwbl ganolog i ateb yr her o alw cynyddol yn y maes gofal ac mae'n medru bod yn broblematig medru darparu'r un opsiynau yn y Gymraeg a sydd ar gael yn Saesneg.

Rydym yn ymwybodol o'r angen i fod yn annog mwy o bobl i ddefnyddio'r Gymraeg ar y we ac wrth ddefnyddio gwasanaethau digidol y Cyngor. Rydym wedi cyflwyno meddalwedd AskSara, sy'n darparu gwasanaeth therapydd galwedigaethol rhithiol i alluogi oedolion, plant a'u teuluoedd i gael

cyngor drwy'n gwefan ar ffyrdd y gallen nhw geisio cynorthwyo eu hunain o ddydd i ddydd. Wrth gydweithio gyda'r cwmni, sylweddolom nad oedd y fersiwn Gymraeg yn safonol a gwrthodm weithredu'r gwasanaeth yng Ngwynedd hyd nes fod hynny wedi'i ddatrys. Rydan ni bellach wedi cyfieithu y system i gyd ar ran y cwmni, a bydd y system hunan asesu yma ar gael yn Gymraeg i bawb drwy Gymru o ganlyniad. Rydym hefyd yn ailfrandio yng Ngwynedd i sicrhau fod yr offeryn yn cael ei hyrwyddo'n Gymraeg hefyd - 'Helpu'n Hun' fydd 'brand' y system yng Ngwynedd.

Mae ap AiDi wedi'i gomisiynu gennym ni er defnydd gofalwyr di-dâl a gofalwyr ifanc ar draws y sir. Pwrpas yr ap yw i greu cerdyn adnabod, i rannu gwybodaeth defnyddiol a dangos gostyngiadau mewn siopau lleol. Yn ychwanegol, gall yr ap adael i ysgol neu goleg wybod os fydd plentyn neu berson ifanc yn hwyr oherwydd eu cyfrifoldebau gofalu. Dyma'r unig ap dwyieithog o'i fath ac o ganlyniad mae trafodaethau'n digwydd ar lefel ranbarthol a chenedlaethol gyda'r bwriad i awdurdodau eraill fabwysiadu'r ap hefyd. Rydan ni'n eithriadol o falch fod gan ein gwaith i ddatblygu ap i ofalwyr Gwynedd botensial i arwain at gyfleon i ofalwyr di-dâl ac ifanc drwy'r wlad ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd hefyd mewn trafodaethau i greu ap i ddarparu cefnogaeth i unigolion ag awtistiaeth gyda'r gobaith y bydd wedi ei ddatblygu ac mewn defnydd erbyn diwedd Mawrth 2025. Gobeithiwn y bydd hyn yn ein galluogi i ddylanwadu ymhellach ar sefydliadau eraill.

Yn ogystal, roedd angen i ni rowlio allan offer digidol teleofal newydd erbyn Rhagfyr 2025. Fe wnaethom sicrhau ei fod yn amod o'r gytundeb newydd gyda chwmni *Chiptech* i sicrhau fod modd defnyddio'r dechnoleg yn llawn drwy'r Gymraeg i'r dyfodol drwy sicrhau fod yr holl negeseuon wedi eu recordio o flaen llaw yn medru cael eu llwytho yn Gymraeg. Mae'r ganolfan alwadau sy'n derbyn y galwadau eisoes yn darparu gwasanaeth yn y Gymraeg. Mae'r dechnoleg fodern ddiweddaraf sydd yn cael eu datblygu yn y maes gofal yn aml yn cael ei datblygu gan gwmnïau mawr (e.e. Amazon), ac mae galluogi defnydd o'r dechnoleg yma yn y Gymraeg yn her.

Fel rhan o waith y Grŵp Mwy na Geiriau, rydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r anawsterau ieithyddol sy'n bodoli wrth geisio gweithio'n amlddisgyblaethol gyda thimau staff lle mae sgiliau iaith Gymraeg yn amrywio. Rydym wedi cychwyn trafod gyda Chanolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor gyda'r bwriad o geisio ymchwilio i'r modd o fynd i'r afael â'r heriau wrth greu a rhannu cofnodion achosion unigolion. Rydym wedi trafod yr opsiwn o ddatblygu 'plug-in' i alluogi gweithwyr proffesiynol i weld y fersiwn wedi'i chyfieithu wrth iddynt gofnodi ar ein bas data gofal cymdeithasol. Byddai hyn yn eu galluogi i wirio wrth fynd ac yn sicrhau fod y cofnod ar gael yn ddwyieithog pan fo angen heb i hynny amharu ar yr iaith sy'n cael ei defnyddio rhyngom ni ag unigolion ac heb greu gwaith ychwanegol afresymol i'n gweithwyr. Fodd bynnag, mae angen ymchwil a gwaith i ddatblygu'r modelau iaith er mwyn i ni fedru eu defnyddio yn ein maes ni o ddydd i ddydd a hyderu yn eu cywirdeb. Bwriedir rhoi sylw i hyn dros y cyfnod nesaf.

Cwestiwn 2. Materion Polisi a Safonau

- i. Sgiliau iaith staff – nifer siaradwyr Cymraeg a dysgwyr o fewn yr adran (data diweddaraf Dynodiadau iaith).
- ii. Rhwystrau - oes yna unrhyw rwystrau i'ch gallu fel adran i gynnig gwasanaeth llawn yn y Gymraeg (h.y. gweithredu ar ofynion y Polisi iaith a Safonau'r Gymraeg)?
- iii. Canmoliaeth a Chwynion – rhowch wybodaeth am unrhyw ganmoliaeth neu gwynion mae'r adran wedi eu derbyn yn ystod y flwyddyn am wasanaethau Cymraeg/dwyieithog.

Ateb:

Sgiliau iaith staff

Ar draws y gwasanaethau cymdeithasol, mae oddeutu 1,600 o staff. Yn ôl yr adroddiad iaith chwarterol diweddaraf, mae 73.4% o'r rhain wedi cwblhau asesiad iaith. O'r rheiny sydd wedi cwblhau'r asesiad, mae 85.5% yn cyrraedd gofynion iaith eu swyddi. Mae'r ffigurau fesul adran isod: Plant a Chefnogi Teuluoedd: Erbyn hyn, mae 79% o staff Plant a Chefnogi Teuluoedd wedi cwblhau yr asesiad iaith, sy'n gynydd o 10% ers cyflwyno ein hadroddiad pwyllgor iaith y llynedd. O'r rheiny sydd wedi cwblhau'r asesiad, mae 94% yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swydd.

Oedolion, Iechyd a Llesiant: Mae 69% o staff Oedolion, Iechyd a Llesiant wedi cwblhau'r asesiad iaith, sy'n gynydd o 9% ers cyflwyno ein hadroddiad pwyllgor iaith y llynedd. O'r rheiny sydd wedi cwblhau'r asesiad, mae 79% yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swydd.

Wrth edrych ar draws y gwasanaethau cymdeithasol, mae'r mwyafrif helaeth o staff sydd heb gwblhau'r asesiad yn staff darparu gofal rheng flaen – gofal cartref, gwasanaethau cefnogol Anableddau Dysgu, gwasanaethau cefnogol plant, a gwasanaethau gofal plant. Mae'r rhain yn aelodau staff sydd heb gyfrifon TG na mynediad rhwydd at dechnoleg. Mae'r holiadur hunanasesiad iaith yn holiadur electroneg sydd wedi'i osod ar system hunanwasanaeth staff ac er fod bob aelod o staff yn gallu cael mynediad at y system hunanwasanaeth, mae'r rheiny heb ddefnydd o offer na chyfrifon TG o dan anfantais o gymharu a'u cydweithwyr 'swyddfa'. Mae'r grŵp Mwy na Geiriau wedi bod yn craffu'r ffigurau yn rheolaidd ac wedi penderfynu bod defnyddio offer yn syml sy'n galluogi'r rheolwr llinell i asesu a yw'r unigolyn yn cyrraedd dynodiad iaith ei swydd a'i pheidio yn ateb rhesymol ar gyfer ceisio mynd i'r afael â'r bwlch sy'n parhau yn y data. Ers y penderfyniad yma, rydym wedi llwyddo'n barod i sicrhau asesiad ar gyfer 68 aelod o staff ychwanegol, gyda 65 ohonynt yn cyrraedd gofynion iaith eu swyddi.

O edrych ar yr aelodau staff sydd wedi eu hasesu fel nad ydynt yn cyrraedd gofynion iaith eu swyddi, mae nifer ohonynt nhw hefyd yn ofalwyr neu'n weithwyr cefnogol. Mae hyn yn adlewyrchu'r heriau recriwtio sydd yn wynebu'r maes, ac mae mwy ar hyn isod. Mae na rai gweithwyr cymdeithasol a therapyddion hefyd sydd ddim yn cyrraedd gofynion iaith eu swyddi yn ôl eu hunanasesiad, ond ar sawl achlysur nid yw'r rheolwr llinell yn cytuno gyda chasgliad yr hunanasesiad (ac o'r farn eu bod nhw yn cyrraedd gofynion eu swydd). Wrth gwrs, mewn hunanasesiad, mae'n bosib iawn i hyder yr unigolyn yn ei sgiliau effeithio ar y canlyniadau ac mae'n rhaid cadw hynny mewn cof wrth ystyried y data.

Rhwystrau

- 1. Recriwtio** – mae heriau recriwtio yn y maes yma yn dod i'r amlwg yn y ddwy adran, er o bosib fod yr effaith ar y gallu i ddarparu gwasanaethau drwy'r Gymraeg i'w weld fwy yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Mae'r gwasanaethau darparu gofal uniongyrchol a'n darparwyr gofal preifat yn ei chael yn anodd iawn recriwtio gweithlu gofal yn gyffredinol, ac o'r herwydd mae'n anodd iawn i bwysu am weithwyr sy'n cyrraedd gofynion iaith y swydd, yn enwedig mewn rhai ardaloedd. Rydym hefyd yn cael anawsterau penodol i recriwtio ym maes therapi galwedigaethol ac o ganlyniad wedi gorfod penodi therapyddion di-Gymraeg mewn sawl tîm. Yn y maes Plant a Chefnogi Teuluoedd, rydym hefyd yn profi problemau recriwtio gweithwyr cymdeithasol cymwysedig.

Er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r heriau hyn mae na Gynllun Gweithlu wedi ei ddatblygu ar draws y ddwy adran. Mae ymgyrchoedd recriwtio amrywiol wedi eu cynnal gan y gwasanaethau a thrwy Gofalwn Cymru, a rydym yn pwysleisio pwysigrwydd y gallu i siarad Cymraeg a'r gallu i fyw mewn cymunedau naturiol Cymraeg yn rhan o'r pecyn recriwtio hwnnw. Ymysg yr ymdrechion recriwtio, rydym wedi gweld:

- Deunydd hyrwyddo, fideos, ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol parhaus yn galw am ofalwyr ac yn hyrwyddo'r maes
- Gweithdai cynllunio'r gweithlu wedi eu cynnal gyda gwasanaethau
- Cydweithio gydag Adnoddau Dynol ar wefan newydd swyddi'r Cyngor ac ar drefniadau cyfweiliadau gadael
- 145 o brofiadau gwaith wedi'u trefnu yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24 ar draws y maes gyda'r cyfle i ddarpar weithlu'r sector gael profiad o'r Gymraeg fel iaith gwaith a gwasanaeth

Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i sefydlu'r Academi Gofal sydd wedi'i grybwyll eisoes yng nghwestiwn 1. Bydd y Gymraeg ac egwyddor y cynnig rhagweithiol yn gwbl ganolog a chreiddiol i'r datblygiadau hyn.

2. Darpariaethau / Lleoliadau tu hwnt i Wynedd a Chymru – Mae cryn gyfyngiadau arnom wrth sicrhau lleoliad gofal dwys i blentyn neu lleoliad lletya i oedolion ag Anableddau Dysgu o Wynedd y tu allan i'r sir. Mae na brosiectau wedi eu hadnabod fel rhan o Gynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 i fynd i'r afael â'r diffyg darpariaeth yng Ngwynedd:

- a. Datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan. Prosiect i ddatblygu cartrefi preswyl cofrestredig ar gyfer grwpiau bychan o hyd at ddau o blant fydd yn caniatáu iddynt gael gofal yng Ngwynedd, mynychu ysgolion lleol a chymryd rhan gyflawn ym mywyd eu cymunedau.
- b. Tai â Chefnogaeth yn y Gymuned – isafswm o 6 tŷ newydd wedi eu lleoli ar hyd a lled y sir i gynnig cartrefi gofal addas a diogel i unigolion ag Anableddau Dysgu. Mae gan y gwasanaeth brosiect lletya lle y maent yn adnabod unigolion sydd wedi eu lleoli yn all-sirol ac yn blaenoriaethu er mwyn eu galluogi i ddychwelyd i Wynedd os ydynt yn dymuno hynny.

Yn yr un modd rydym hefyd yn bryderus am anghenion ieithyddol troseddwr ifanc sydd yn derbyn dedfryd o garchar. Mae unigolion wedi'u dedfrydu i garchar yn ystod y flwyddyn diwethaf ac wedi'u lleoli yn Lloegr gan nad oes darpariaeth addas yng Ngogledd Cymru. Mae hyn yn gwanhau cysylltiad y person ifanc gyda'i deulu, iaith a'i ddiwylliant. Mae'r mater yma wedi'i uchafu yn genedlaethol i Lywodraeth Cymru ers blynyddoedd ond mae'r sefyllfa yn parhau yr un fath. Mae hyn yn rhoi pobl ifanc o Wynedd dan anfantais drwy fethu â chwrrd â'u hanghenion ieithyddol ac wrth gwrs yn fater o bryder sylweddol.

- 3. Technoleg** – rydan ni'n trio sicrhau fod unrhyw dechnoleg rydan ni'n ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau gofal ar gael yn Gymraeg ond mae hyn yn creu heriau i ni. Yn aml, mae'r dechnoleg ddiweddaraf sydd ar gael yn arbenigol iawn ei natur ac ar gael yn Saesneg yn unig. Rydym yn ceisio cydweithio gyda cwmnïau i ddatblygu yn Gymraeg ond yn ei chael yn anodd ennyn y diddordeb i wneud hynny oni bai fod ffynhonnell ariannol ychwanegol ar gael iddynt.
- 4. Gweithio gyda partneriaid** – gall gynnal gwasanaethau integredig ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd greu heriau i ni yn ieithyddol gan fod nifer o'r cyfarfodydd yn cychwyn yn Saesneg. Rydym yn ymdrechu i ddylanwadu, er enghraifft drwy bwysu i sicrhau darpariaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd fwy ffurfiol. Mae'r un peth yn wir wrth i ni fynychu cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol yn y maes. Nid yw nifer o'n partneriaid yn cynnig darpariaeth gyfieithu, yn enwedig mewn cyfarfodydd rhithiol ac mae'n rhaid i ni ofyn a phwyso yn aml am y gallu i gyfrannu'n Gymraeg.

Cwynion a chanmoliaethau - nid oes cwynion na chanmoliaethau ffurfiol wedi'n cyrraedd yn ystod y flwyddyn sy'n ymwneud yn benodol â gwasanaethau Cymraeg neu ddwyieithog. Wrth gwrs, mae nifer o ganmoliaethau wedi ein cyrraedd mewn perthynas â bodlonrwydd unigolion a theuluoedd gyda'r gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn, ac mae nifer o'r gwasanaethau hyn yn Gymraeg ac felly credwn fod cwrdd ag anghenion iaith unigolion yn naturiol yn cyfrannu at ansawdd y gwasanaeth.

Fodd bynnag, mae na nifer o resymau posib nad yw canmoliaeth a chwynion yn ein cyrraedd yn ffurfiol. Mae rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu fod unigolion yn y maes gofal yn enwedig yn amharod i gwyno gan boeni y gallai gael effaith ar y gofal a/neu chefnogaeth y maen nhw'n ei dderbyn. Gan fod cyfran sylweddol o'n gwasanaeth ar gael yn y Gymraeg, mae'n bosibl rwydd hefyd fod y gwasanaethau hyn yn ran mor naturiol o fywyd unigolion na fydden nhw'n ystyried canmol yn ffurfiol – ond yn sicr gwyddwn fod gweithwyr yn y maes sy'n ymwybodol o ddiolchiadau a sylwadau anffurfiol gan drigolion am eu bod yn cael gofal yn y Gymraeg.

Cwestiwn 3. Cyfleoedd Datblygu

Oes gennych chi syniadau am ffyrdd newydd y gallem ni fod yn hybu'r Gymraeg o fewn cymunedau'r sir – naill ai yn eich gwasanaethau eich hun neu drwy gydweithio gydag eraill?

Ateb

Er mwyn hybu'r Gymraeg ymhellach o fewn cymunedau Gwynedd, mae'n allweddol bwysig fod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithredu egwyddorion Mwy na Geiriau yn llawn ac yn sicrhau fod trigolion Gwynedd yn derbyn gwasanaethau'n Gymraeg yn ddiodyn bob amser.

Mae angen i ni sicrhau fod ein holl weithlu yn ymwybodol o ofynion Mwy na Geiriau a beth mae'n olygu iddyn nhw. Rydym ynghanol datblygu fideos byr i'r perwyl yma fel cam cyntaf. Mae na deimlad nad ydi rai o drigolion mwyaf bregus y sir yn derbyn gwasanaeth yn y Gymraeg heb orfod gofyn amdano bob amser, ac mewn rhai achosion ein bod yn gofyn iddynt ba iaith fyddai eu dewis. Mae angen i ni barhau i weithio tuag at sefyllfa lle mae'r cynnig rhagweithiol yn arferiad ac nad oes angen i unrhyw un fynegi ffafriaeth ieithyddol, ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'n gweithwyr sy'n rhugl yn y Gymraeg, a bod modd i ni fesur effaith hyn ar drigolion Gwynedd yn effeithiol.

Fel sydd eisoes wedi'i grybwyll, mae'n hanfodol er mwyn hybu'r Gymraeg ein bod yn parhau i wthio i unrhyw dechnoleg a gaiff ei ddatblygu fel rhan o ofal amgen i'r dyfodol fod ar gael yn y Gymraeg yn llawn. Byddwn yn parhau i gyd weithio gyda'r Prifysgolion a gyda chwmnïau cenedlaethol, i drio sicrhau fod y dechnoleg ddiweddaraf yn gallu cyfathrebu yn y Gymraeg.

Byddwn hefyd yn parhau i sicrhau fod ein hymwneud â'n partneriaid yn ddwyieithog ac yn hyrwyddo pwysigrwydd y defnydd o'r Gymraeg i drigolion y sir, a thrwy hynny ddylanwadu ar ymarfer mewn sefydliadau y tu allan i'r Cyngor.

Eitem 8

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	25 Mehefin 2024
TEITL:	Adroddiad Blynyddol Cyngor Gwynedd ar weithrediad y Safonau Iaith
AWDUR:	Llywela Haf Owain Uwch Ymgynghorydd Iaith
PWRPAS YR ADRODDIAD	Cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol drafft i'r aelodau er mwyn iddynt argymhelliad i'r Aelod Cabinet gymeradwyo cyhoeddi'r Adroddiad

1 CEFNDIR

1.1 Yn unol â gofynion y Safonau Iaith, a osodwyd ar y Cyngor dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae gofyn i'r Cyngor "*lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi sy'n delio â'r modd y bu [ichi] gydymffurfio â'r safonau gweithredu yr [oeddech] o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.*"

1.2 Mae'r Safonau yn gosod rhai gofynion penodol ar gyfer adrodd blynyddol (158, 164 ac 170), gan nodi bod rhaid i ni gynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- *nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau*
- *nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 151);*
- *nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);*
- *os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);*
- *nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn –*
 - bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol*
 - bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd,*
 - bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu*
 - nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol, (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 154);*

1.3 Y tu hwnt i'r wybodaeth uchod, mae rhyddid i'r Cyngor gynnwys unrhyw wybodaeth y teimlwn sydd yn ychwanegu at ddealltwriaeth y cyhoedd a Chomisiynydd y Gymraeg o waith y Cyngor yng nghyd-destun y safonau a hyrwyddo defnydd o wasanaethau Cymraeg, ac unrhyw wybodaeth am gamau penodol a gymerir i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r Safonau.

1.4 Gan fod gan y Pwyllgor Iaith gyfrifoldeb am gadw trosolwg ar weithrediad y Safonau Iaith, mae'r adroddiad a atodir, ar gyfer y flwyddyn hyd at ddiwedd Mawrth 2023, yn cael ei gyflwyno er gwybodaeth i aelodau'r pwyllgor, a gofynnir iddynt roi eu hargymhelliad iddo gael ei gymeradwyo i'w gyhoeddi gan yr Aelod Cabinet.

1.5 Bydd angen i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor erbyn 30 Mehefin 2023.

2 CRYNODEB O'R ADRODDIAD

2.1 Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth allweddol am drefniadau recriwtio a staffio, sydd yn sicrhau bod gweithlu'r Cyngor yn parhau i allu cynnig gwasanaethau Cymraeg yn ddiofyn a lle bynnag y mae ei angen ar draws y Cyngor. Mae'r data allweddol yn cynnwys:

- 98.9% o staff y Cyngor cyfan yn meddu ar ryw fath o sgiliau yn y Gymraeg.
- 92% o staff y Cyngor yn cyrraedd dynodiad iaith eu swydd
- 850 o hysbysebion swyddi wedi eu cyhoeddi yn ystod y flwyddyn gyda sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol.

2.2 Rhoddir gwybodaeth hefyd am ddatblygiadau yn ystod y flwyddyn i wella cydymffurfiaeth efo'r Safonau gan gynnwys

- Camau penodol a gymerwyd i hyrwyddo'r Polisi Iaith newydd a fabwysiadwyd yn 2022
- Gwybodaeth am y Strategaeth Iaith newydd a gyhoeddwyd diwedd 2023 sy'n nodi gweledigaeth y Cyngor o gynyddu defnydd y Gymraeg ar draws Gwynedd.
- Gwybodaeth am waith fforwm mewnol Mwy Na Geiriau
- Prosiect Recriwtio Gweithlu Dwyieithog

2.3 Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu rhai o'r heriau y bydd yr Uned Iaith a Chraffu a gwasanaethau ar draws y Cyngor, yn rhoi sylw iddynt yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella'r ddarpariaeth ddwyieithog a'r cynnig rhagweithiol Cymraeg.

3 ARGYMHELLION

2.1 Gofynnir i'r aelodau:

- dderbyn cynnwys yr Adroddiad Blynyddol,
- cynnig unrhyw sylwadau ar y materion sydd yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad, a
- argymhell i'r Aelod Cabinet gyhoeddi'r adroddiad erbyn y terfyn amser, 30 Mehefin 2023.

Uned
laith

**ADRODDIAD BLYNYDDOL
SAFONAU'R GYMRAEG
CYNGOR GWYNEDD**

**EBRILL 2023 HYD AT
31 MAWRTH 2024**



CYNNWYS

1. Rhagair
2. Crynodeb
3. Cefndir
4. Sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau
 - a. Datblygiadau yn ystod y flwyddyn
 - b. Trefniadau cyffredinol
 - c. Cwynion
 - Safon 170: Adrodd ar gwynion iaith
 - ch. Trosolwg cyffredinol sgiliau iaith
 - Safon 154: Adrodd ar nifer swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn yn ôl pob "categori"
 - Safon 151: Adrodd ar niferoedd staff sydd efo sgiliau yn y Gymraeg
 - d. Hyfforddiant
 - Safon 152: Adrodd ar nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi
5. Heriau wrth symud ymlaen – materion sydd angen sylw

RHAGAIR

Cynghorydd Menna Trenholme

Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol Cyngor Gwynedd
(gyda chefnogaeth am y Gymraeg yn ystod 2023-24)



Rwyf yn hynod falch o'r gwaith sydd yn cael ei wneud o fewn y Cyngor i sicrhau bod trigolion Gwynedd yn gallu defnyddio ein holl wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Gallwn ymfalchïo yn yr adroddiad hwn sy'n dystiolaeth o'r gwaith da sy'n cael ei gyflawni ar draws holl adrannau'r Cyngor.

Mabwysiadwyd y Strategaeth Iaith newydd yn ystod 2023, sydd yn tanlinellu ymroddiad ac ymrwymiad y Cyngor i gynyddu cyfleoedd i bob un o drigolion Gwynedd weld a defnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau. Drwy weithio ar godi statws a chynyddu defnydd pobl o'r iaith ym mhob rhan o'n bywydau, byddwn hefyd gobeithio yn cynyddu'r cymhelliant i eraill ddysgu'r iaith.

Mae'r strategaeth yn rhoi sylw i geisio cynyddu defnydd iaith pobl ifanc dros y blynyddoedd nesaf, gan gynnwys dangos iddynt werth yr iaith fel sgil i'r byd gwaith, a cheisio cynyddu'r cyfleoedd anffurfiol iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau dyddiol. Rhoddir sylw hefyd i sut y gallwn ni gael dylanwad cadarnhaol ar y ffordd mae trigolion yn defnyddio'r Gymraeg yn yr amrywiol ddulliau y mae technoleg yn rhan o'u bywydau. Edrychaf ymlaen at weld rhaglen waith y strategaeth, sy'n canolbwyntio ar gynlluniau neu brosiectau ar feysydd lle mae gan y Cyngor rym a dylanwad i weithredu arnynt, yn cael ei datblygu ymhellach.


Braf yw nodi bod mwyafrif helaeth staff y Cyngor yn gallu siarad Cymraeg, â nifer fawr gyda sgiliau Cymraeg rhugl, sydd yn golygu bod defnydd o'r Gymraeg fel iaith gwaith dydd i ddydd yn dal i fod yn arfer naturiol, a'n bod yn gallu sicrhau gwasanaeth Cymraeg yn rhagweithiol a diofyn.

Mae nifer o gynlluniau eraill ar y gweill gan y Cyngor fydd yn rhoi lle blaenllaw i ffyniant cymunedol a ffyniant yr iaith yn y dyfodol, ac felly wyf yn falch bod Cyngor Gwynedd yn parhau i arwain y gad, ac i edrych y tu hwnt i ddarparu dwyieithog yn unig, drwy roi anghenion y trigolion ac ymrwymiad i weithredu er lles y Gymraeg yn gyntaf.

CRYNODEB

98.9%

98.9% o staff y
Cyngor yn meddu ar
rhyw fath o sgiliau
yn y Gymraeg



82% o'r
digwyddiadau
hyfforddiant wedi
eu cynnal yn
Gymraeg gyda
chymorth
ar y pryd

850

850 o swyddi wedi
eu hysbysebu lle
roedd sgiliau yn y
Gymraeg yn hanfodol



Strategaeth iaith newydd
wedi ei chyhoeddi ar
gyfer 2023-2033 gyda
gweledigaeth o gynyddu
defnydd y Gymraeg ar
draws Gwynedd

92%

92% o staff y
Cyngor yn
cyrraedd
dynodiad iaith
eu swydd

DYLETSWYDDAU'R SAFONAU

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod fframwaith cyfreithiol, sydd yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae safonau unigol yn egluro sut mae disgwyl i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau'n golygu na ddylai'r Cyngor drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylai'r Cyngor hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg (sef ei gwneud yn haws i bobl ei defnyddio yn eu bywydau o ddydd i ddydd).

Mae'r Safonau Iaith wedi eu rhannu yn bum maes:

- cyflenwi gwasanaethau
- llunio polisi
- gweithredu
- hybu
- cadw cofnodion

Derbyniodd y Cyngor hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 30 Medi 2015, a hynny o dan Ran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Roedd yr hysbysiad yn pennu'r safonau penodol y mae'n ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â hwy, ac ar 30 Mawrth 2016 daeth 147 o safonau yn weithredol, gyda 4 o safonau hybu yn dod yn weithredol ar 30 Mawrth 2017.

Gellir gweld y Safonau y mae'r Cyngor yn gorfod cydymffurfio â nhw yn eu cyfanrwydd, ynghyd â chopi o Bolisi Iaith cyfredol y Cyngor, drwy fynd i dudalen Safonau a Pholisi'r wefan gorfforaethol:



[TUDALEN SAFONAU'R GYMRAEG A PHOLISI IAITH](#)

Adrodd yn unol â gofynion safon 170

Mae rhaid i'r Cyngor greu adroddiad blynyddol sy'n darparu gwybodaeth am gydymffurfiaeth gyda Safonau'r Gymraeg. Mae'r union ofynion wedi eu rhestru yn safon 170:

(1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn y Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.

(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys y wybodaeth a ganlyn (pan fo'n berthnasol, i'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau y cyfeirir atynt) –

(a) nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 151);

(b) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);

(c) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);

(ch) nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn –

i. bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol

ii. bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd,

iii. bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu

iv. nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol, (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 154);

(d) nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfiaeth â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFONAU

a) DATBLYGIADAU YN YSTOD Y FLWYDDYN

Prif gyfrwng y Cyngor ar gyfer gweithredu yn unol â'r Safonau Iaith a sicrhau gwasanaethau cyfrwng Cymraeg i drigolion Gwynedd yw ei Bolisi Iaith.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae ymdrechion wedi eu gwneud i atgoffa staff o'r polisi diweddaraf a fabwysiadwyd yn 2022 drwy gyfathrebu mewn dulliau amrywiol gan gynnwys rhoi gwybodaeth yng nghylchlythyr wythnosol y staff, diweddarau e-fodiwl cwrs ymwybyddiaeth iaith, anfon e-byst atgoffa cyson a diweddarau'r wybodaeth ar fewnrwyd y staff. O ganlyniad mae gwell ymwybyddiaeth o'r polisi iaith ymysg staff. Yn ddiau, mae'r ffaith bod pob adran yn adrodd yn flynyddol i Bwyllgor Iaith Cyngor Gwynedd ar weithrediad y polisi iaith a'u cyfraniad i wireddu'r strategaeth iaith hefyd wedi helpu yn ogystal â'r disgwyliad i bob adran gyflawni hunanasesiad adrannol ar gydymffurfiaeth gyda'r polisi iaith a'r safonau. Mae materion sydd wedi codi o'r hunanasesiadau wedi cael sylw a chefnogaeth addas wedi ei chynnig megis sesiwn atgoffa o safonau'r Gymraeg a pholisi iaith ar gyfer rheolwyr gwasanaethau ategol addysg.

Yn nhymor yr hydref mabwysiadwyd strategaeth iaith Gymraeg newydd sef 'Strategaeth Iaith Gwynedd 2023-2033' sy'n ddilyniant i'r strategaeth flaenorol, 'Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-23'. Mae'r strategaeth newydd 10 mlynedd yn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i hybu a hyrwyddo'r iaith ar draws y sir ac i fodloni'r gofynion a osodir o fewn Safonau'r Gymraeg.

Prif weledigaeth y strategaeth yw cynyddu defnydd o'r Gymraeg, gan ganolbwyntio ar gynlluniau neu brosiectau ar feysydd lle mae gan y Cyngor rym a dylanwad i weithredu arnynt. Nodir bod y Cyngor yn awyddus i weld 100% o blant Gwynedd yn cael y cyfle i siarad a defnyddio'r iaith yn rheolaidd. Mae 5 maes gweithredu cyffredinol sef iaith y blynyddoedd cynnar, iaith Dysgu, iaith Gwaith a Gwasanaeth, iaith y Gymuned ac Ymchwil a thechnoleg.

Rhodddwyd sylw hefyd i'r Gymraeg ym mhrif gynllun strategol y Cyngor sef 'Cynllun y Cyngor 2023 - 2028' gyda Gwynedd Gymraeg wedi ei nodi fel un o'r saith maes blaenoriaeth y disgwyilir i staff weithredu arnynt. Ynndo, mae tri phrosiect sy'n rhoi sylw i'r Gymraeg sef materion moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant, hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd ac adolygu polisi iaith addysg Gwynedd.

Mae mwyafrif helaeth staff y Cyngor yn gallu siarad Cymraeg, a nifer fawr â sgiliau Cymraeg rhugl, sy'n golygu bod defnydd o'r Gymraeg fel iaith gwaith dydd i ddydd yn dal i fod yn arfer naturiol, a'n bod yn gallu sicrhau gwasanaeth Cymraeg yn rhagweithiol ac yn ddiodyn. Mae'r angen i ystyried y Gymraeg, a rôl y Cyngor wrth gynnal cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn ein cymunedau, hefyd yn arfer naturiol sy'n parhau, ac ni wneir unrhyw benderfyniad ar newidiadau i wasanaethau, neu wrth ddatblygu cynlluniau strategol, heb fod y Gymraeg a datblygu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn rhan greiddiol o'r cynlluniau hynny. Mae'r Cyngor yn parhau i arwain

a mynd y tu hwnt i ofynion y Safonau wrth osod gofynion iaith wrth recriwtio a hefyd wrth gynnal ei holl gyfarfodydd cyhoeddus yn Gymraeg, a hynny yn ddiodyn.

Er mwyn ymgymryd â'r her o gynyddu defnydd o'r Gymraeg ymysg trigolion Gwynedd a chydweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol cydlynwyd a chefnogwyd gwaith Fforwm Iaith Gwynedd. Erbyn hyn mae cynrychiolwyr 25 o bartneriaid ar draws y sir yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod a chyd-gynllunio cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws y sir. O ganlyniad i'r cyd-weithio, penderfynwyd creu is-grŵp pobl ifanc fydd yn cyfarfod yn y flwyddyn nesaf er mwyn gyrru a chyflawni ar brosiect newydd ar y cyd.

Braf yw nodi bod ymgynghorwyr iaith y Cyngor yn aelodau ar fyrddau amrywiol er mwyn bwydo mewn i weithgarwch hybu a hyrwyddo rhanbarthol a chenedlaethol. Mae cynrychiolydd ar Fwrdd Strategaeth Treftadaeth y Byd a'r is-grŵp buddion, yn y gobaith y bydd cyd-weithio rhwng partneriaid yn datblygu ac yn galluogi er casglu data o sut mae'r Gymraeg yn elwa o'r statws a pha effaith mae'r Gymraeg yn ei chael ar lwyddiant partneriaid sy'n rhan o'r statws.

Mae fforwm mewnol Mwy Na Geiriau yn parhau dan arweiniad Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn goruchwyllo gwaith yr adrannau Oedolion a Phlant yng nghydestun fframwaith Mwy Na Geiriau. Mae swyddogion o'r Uned Iaith a Chraffu yn mynychu'r fforwm er mwyn sicrhau bod gofynion y Safonau hefyd yn cael eu hamlygu a'u gweithredu ochr yn ochr gyda gofynion Mwy Na Geiriau. Mae heriau wedi'u hamlygu mewn perthynas â'r safonau'n cynnwys yr angen i sicrhau canllawiau clir i gartrefi gofal ac ati ar ddefnydd o'r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol a'r angen i gael datrysiad ar gyfer timau aml-ddisgyblaethol er mwyn sicrhau nad yw diwallu anghenion ieithyddol unigolion yn ogystal ag anghenion ieithyddol gweithwyr di-Gymraeg o sefydliadau eraill yn creu baich gwaith ychwanegol i'n gweithwyr proffesiynol. Mae swyddogion o'r adrannau yn gweithredu ar y materion hyn wrth iddynt godi.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae sylw wedi ei roi i geisio cael gwell darlun o sgiliau iaith y gweithlu ac ystyried sut y gellir cofnodi defnydd iaith defnyddwyr gwasanaeth yn effeithiol er mwyn hwyluso gweithredu'r cynnig rhagweithiol. Mae'r grŵp hefyd wedi rhoi sylw i ddulliau o hybu'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael drwy edrych ar y posibilrwydd o gynnwys bathodynau iaith ar lifrai gweithwyr a chynllunio fideos byr i ddarlunio beth yn union mae'r cynnig rhagweithiol yn ei olygu i weithwyr ar lawr gwlad.

Mae ymgynghorwyr iaith y Cyngor hefyd yn aelodau o Is-grŵp y Gymraeg sydd yn rhan o strwythur Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn. Dros y flwyddyn ddiwethaf rhoddwyd sylw i heriau recriwtio gweithwyr dwyieithog sy'n siarad Cymraeg mewn cyrff cyhoeddus ar draws gogledd Cymru ar ran tri bwrdd gwasanaethau cyhoeddus y gogledd. Bydd argymhellion ynghylch arfer da yn cael eu cyhoeddi flwyddyn nesaf. Mae hon yn enghraifft dda o rannu adnoddau a chydweithio ar lefel rhanbarthol.

Parhawyd i gynorthwyo Prifysgol Bangor gydag ymchwil sy'n edrych ar agweddau pobl tuag at ddefnyddio gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Rhyddhawyd yr holiadur mis Chwefror gyda'r dyddiad cau ddiwedd mis Ebrill 2024. Hyderwn y bydd y gwaith ymchwil hwn yn gwella ein dealltwriaeth o sut y gallwn ni ddylanwadu ar benderfyniadau ac annog mwy o bobl i ddefnyddio'r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg (yn enwedig rhai digidol/ar-lein) sydd yn cael eu darparu gan y Cyngor.

b) TREFNIADAU CYFFREDINOL I GYDYMFFURFIO Â'R SAFONAU

Mae Cyngor Gwynedd yn manteisio ar bob cyfle i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg ar draws adrannau'r Cyngor. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r canlynol wedi cael sylw arbennig wrth ddilyn camau penodol i gryfhau'r gydymffurfiaeth gyda'r safonau.

Grŵp o safonau	Camau a gymerwyd	Camau i'w cymryd
Hybu - 145, 146 Gweithredu – 98	Creu Strategaeth Iaith Gwynedd 2023-33 , sy'n dangos sut ydym yn mynd ati i hybu'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd ar draws y Sir.	Mae cyfarfodydd mewn lle gyda phenaethiaid adrannau ar draws y Cyngor er mwyn cyfuno'r gwaith adrannol i greu rhaglen waith i weithredu ar y Strategaeth Iaith. Pan fydd yn gyflawn, bydd angen hyrwyddo'r strategaeth a'r cynnwys.
Llunio polisi - 88, 89, 90, 91, 92, 93	Cynorthwyo swyddogion wrth gynnwys cwestiynau iaith mewn Ymgynghoriadau .	Creu dogfen syml er mwyn atgyfnerthu pwrpas y cwestiynau iaith mewn ymgynghoriadau a chanllawiau clir o'r cwestiynau i'w cynnwys.
Safonau gweithredu - 98 Safonau polisi – 165	Hyrwyddo camau polisi iaith Cyngor Gwynedd fel negeseuon byr yn 'Gair Wythnosol' i staff Cyngor a diweddarau e-fodiwl ymwybyddiaeth iaith.	Datblygu ffurf newydd i hyrwyddo cynnwys y polisi iaith ymysg staff a thrigolion Cyngor Gwynedd, gan gynnwys cyfathrebu mewnol a chyfryngau cymdeithasol yr Uned Iaith.
Cyflenwi gwasanaethau - 56, 58, 60 Gweithredu - 121, 122, 124, 126	Gwaith yn parhau i adolygu'r systemau technoleg er mwyn arddel yr iaith Gymraeg a sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda gofynion y safonau.	Bydd gwaith pellach yn sicrhau bod cysondeb defnyddio dyluniadau a chyfeiriadau Cymraeg cywir ar draws y Cyngor er mwyn cydymffurfio gyda'r safonau.

C) CWYNION

Safon 170: Adrodd ar gwynion iaith

Yn unol â threfniadau atebolrwydd ac adrodd mewnol y Cyngor, caiff unrhyw gwynion neu ymholiadau am wasanaethau sydd yn cael eu derbyn mewn perthynas â'r Safonau neu Bolisi Iaith y Cyngor rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024 eu cofnodi gan yr Uned Iaith a Chraffu, a'u hadrodd i Bwyllgor Iaith y Cyngor fel rhan o'r adroddiad hwn.

Derbyniwyd y cwynion ac ymholiadau isod.

Cwynion Cydymffurfiaeth â'r Safonau Iaith (Comisiynydd y Gymraeg)

1. CS1126 - Cyngor wedi rhoi hysbyseb uniaith Saesneg yn y llyfryn 'Sibrydion' (Chwefror 2023)

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn fod y Cyngor wedi rhoi hysbyseb uniaith Saesneg yn y llyfryn 'Sibrydion' a ddisbarthwyd o fewn ardal yr achwynydd. Eglurwyd bod y Cyngor wedi talu i hysbysebu yn y cylchgrawn, ond dim hysbyseb ar gyfer blwch gyda manylion cyswllt a logo'r Cyngor ar ochr dde uchaf un dudalen. Nid oedd rheolaeth o gwbl gan y Cyngor dros y wybodaeth a oedd wedi ei chynnwys ar weddill y dudalen. Derbyniwyd yr ymateb ac ni aeth y Comisiynydd ati i ymchwilio i'r mater.

2. Arwydd stad Rhandir Mwyn, Caernarfon (Mawrth 2024)

Derbyniodd y Comisiynydd ymholiad ynghylch arwydd stad newydd o dai yng Nghaernarfon, Rhandir Mwyn, a oedd yn cynnwys y geiriad 'Nos' arno a gofynnwyd a oedd y Cyngor wedi cysylltu gyda pherchennog y safle i unionir sefyllfa. Er nad Cyngor Gwynedd oedd yn gyfrifol am yr arwydd eglurwyd bod y Cyngor eisoes wedi cysylltu gyda pherchennog y stad, cymdeithas dai leol, er mwyn tynnu sylw at y camgymeriad ar yr arwydd ac wedi cael gwybod y bydd yr arwydd yn cael ei newid ganddynt faes o law. Derbyniwyd yr ymateb ac ni aeth y Comisiynydd ati i ymchwilio i'r mater.

CWYNION AC YMHOLIADAU AM WASANAETH NEU YN YMWNEUD Â PHOLISI IAITH Y CYNGOR

	Adran	Gwybodaeth am yr ymholiad / cwyn	Esboniad a chamau a gymerwyd
	Cwynion		
1.	Cefnogaeth Gorfforaethol	Cwyn bod hysbyseb swydd Pennaeth Ysgol Llanllyfni wedi'i hysbysebu yn uniaith Saesneg ar wefan gymdeithasol.	Adroddwyd bod yr hysbyseb wedi'i rhannu mewn camgymeriad gan aelod o staff. Erbyn hyn mae camau wedi'u cymryd er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r Polisi Iaith a'r disgwyliad i hysbysebu swyddi ysgolion y Cyngor yn y Gymraeg yn unig.
2.	Cefnogaeth Gorfforaethol	Derbyniwyd cwyn bod polisi recriwtio'r Cyngor yn annheg wrth fynnu bod angen bod yn rhugl yn y Gymraeg ar gyfer pob swydd. Roedd gan yr unigolyn nam clyw oedd yn golygu na allai ddeall na dysgu Cymraeg yn dda. Gan ei fod dan yr argraff bod y gofynion ieithyddol ar swyddi yn golygu bod angen bod yn rhugl, teimlai na allai ymgeisio am swydd efo'r Cyngor. Roedd wedi ei droi i ffwrdd o ganolfan ailgylchu'r Cyngor wrth geisio cyflwyno CV am nad oedd yn gallu siarad Cymraeg. Teimlai felly bod y polisi yn gwahaniaethu yn ei erbyn ac y dylai dderbyn iawndal.	Anfonwyd ymddiheuriad i'r achwynydd am yr ymateb a gafodd yn y ganolfan ailgylchu, ac esboniwyd y polisi o ran gosod gofynion iaith ar swyddi. Edrychwyd ar un o'r swyddi oedd dan sylw gan yr achwynydd (swydd gyrru LGV) a chadarnhau mai lefel Sylfaen/Mynediad oedd y gofynion iaith ar gyfer y swydd honno. Roedd yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn rhan o ymateb i'r gwyn hon hefyd gan fod yr achwynydd yn honni gwahaniaethu ar sail anabledd. Nid oedd yr achwynydd yn hapus gydag ymateb y Cyngor felly gwnaeth gŵyn i'r ombwdsman. Penderfynodd yr ombwdsman nad oedd am wneud ymchwiliad.

3.	Amgylchedd	Cafwyd ymholiad gan aelod o'r cyhoedd a oedd polisi iaith y Cyngor yn berthnasol i faneri sy'n cael eu harddangos gan sefydliadau/busnes ar dir preifat. Holwyd hefyd a oedd modd i'r gwasanaeth cynllunio ymyrryd.	Adroddwyd nad oes gan y Cyngor unrhyw rymoedd cyfreithlon i orfodi busnesau neu sefydliadau i arddangos baneri/arwyddion Cymraeg neu ddwyieithog. Mae rhywfaint o bwerau o fewn y broses gynllunio felly gellir gofyn am arwyddion dwyieithog os yw rhywun yn gwneud cais cynllunio. Eglurwyd bod y Cyngor yn manteisio ar gyfleoedd addas i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg gan fusnesau ac yn ceisio dangos gwerth defnyddio'r Gymraeg iddynt.
4.	Amgylchedd	Cwyn am ddefnydd o enwau Saesneg mewn hysbyseb cau strydoedd (rhybuddion a gorchmynion traffig) yn y Wasg, sydd yn groes i Bolisi iaith y Cyngor	Darparwyd eglurhad bod rhaid i'r Cyngor geisio sicrhau bod dogfennau sydd yn ymwneud a newidiadau i rwydwaith y ffordd yn hollol glir, dealladwy a chynhwysfawr i ddefnyddwyr y ffordd ac o ganlyniad defnyddir enwau'r strydoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg, mewn rhybuddion a gorchmynion traffig.
5.	Priffyrdd, Peirianeg ac YGC	Derbyniwyd cwyn am arwyddion ffordd uniaith Saesneg a oedd wedi'u gosod yn Llanllyfni ac ar lôn i Benygroes yn rhybuddio trigolion bod y lôn ar gau ar 19eg Gorffennaf.	Anfonwyd ymddiheuriad bod rhai arwyddion uniaith Saesneg wedi eu gosod yn yr ardal ac aethpwyd ati ar unwaith i osod arwyddion dwyieithog. Eglurwyd hefyd bod math gwahanol o arwydd dwyieithog eisoes wedi ei osod gan y Cyngor yn hysbysu bod y gwaith i gychwyn yn yr ardal.
6.	Cyllid	Derbyniwyd cwyn fod unigolyn wedi derbyn ffurflen SSP1 uniaith Saesneg gan y gwasanaeth cyflogau.	Ymchwiliwyd i'r sefyllfa a chafwyd gwybod mai camddealltwriaeth gan swyddogion o fewn yr uned a arweiniodd at anfon ffurflen uniaith Saesneg. Ymddiheurwyd a gwnaed trefniadau i sicrhau bod copïau Cymraeg a Saesneg o'r ffurflen yn cael eu hanfon allan yn y dyfodol.

7.

Cyllid

Derbyniwyd cwyn bod unigolyn wedi derbyn dogfennau uniaith Gymraeg gan y Gwasanaeth Pensiynau.

Eglurwyd pan ymunodd yr unigolyn gyda'r gronfa bensiwn nad oedd yn rhaid cofnodi dewis iaith unigolyn wrth dderbyn gwasanaeth ond bod hynny wedi newid yn sgil cyflwyno Safonau'r Gymraeg o dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Ymhelaethwyd bod yn rhaid i'r Cyngor weithredu yn unol â Safon 5 sy'n nodi 'Os nad ydych yn gwybod a yw person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthyich yn Gymraeg rhaid ichi ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth pan fyddwch yn gohebu â'r person hwnnw.' Gan nad oedd dewis iaith wedi ei gofnodi ar gyfer yr unigolyn anfonwyd gohebiaeth Cymraeg ato.

Ategwyd bod Mesur y Gymraeg yn sicrhau hawl yr unigolyn i wasanaethau Cymraeg. Nodwyd nad oes darpariaeth o dan y Mesur sy'n rhoi'r un amddiffyniad a hawl i wasanaethau Saesneg. Ychwanegwyd y bydd dewis iaith yr unigolyn yn cael ei gofnodi ac y bydd copi Saesneg o'r llythyr yn cael ei anfon ato.

8.

Economi a Chymuned

Aelod yn cwyno am ddogfennaeth uniaith Saesneg mewn cyfarfod ym Mhwllheli

Comisiynwyd ymgynghorwyr allanol i baratoi cynllun arfaethedig ar gyfer ardal Glandon a harbwr Pwllheli a threfnwyd Sesiwn Galw Heibio gyhoeddus er mwyn cynnig diweddariad ar y gwaith i drigolion a busnesau lleol. Trwy gamgymeriad nid oedd manylion a ddangoswyd ar y cynlluniau wedi'u cyfieithu'n llawn. Rhoddwyd sicrwydd gan yr adran y byddent yn gwirio bod dogfennau dwyieithog yn cael eu darparu gan gwmnïau neu ymgynghorwyr a gomisiynir yn y dyfodol.

9. Economi a Chymuned

Derbyniwyd galwad ffôn gan aelod o'r cyhoedd oedd eisiau gwneud cwyn am wefan Neuadd Dwyfor gan ei bod yn ymddangos yn Saesneg yn gyntaf, a'i fod wedi derbyn e-bost cadarnhau uniaith Saesneg wrth archebu tocynnau.

Eglurwyd bod gwefan Neuadd Dwyfor ar gael yn ddwyieithog ond nad oes gan y Cyngor reolaeth dros ba iaith mae'r cyhoedd yn ei weld yn gyntaf. Ymddengys bod peiriannau chwilio megis Google yn gynyddol yn dangos a chyfeirio at y fersiynau Saesneg o wefannau, hyd yn oed pan fydd unigolyn yn chwilio yn Gymraeg neu pan fydd sefydliad wedi ceisio gosod y Gymraeg fel y dewis diofyn, fel mae'r Cyngor yn ei wneud.

Adroddwyd hefyd bod iaith cadarnhad e-bost archebu tocyn yn dibynnu ar ba iaith mae'r cwsmer yn ei defnyddio i brynu'r tocynnau. Os yw'r cwsmer yn cael ei gyfeirio trwy beiriant chwilio at fersiwn Saesneg y wefan mae modd iddynt fynd syth i'r fersiwn Gymraeg drwy bwysu'r botwm Cymraeg,

10.

Economi a Chymuned

Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd ynghylch amodau ieithyddol a roddir gyda Grantiau Busnes.

Adroddwyd bod Cyngor Gwynedd yn disgwyl i fusnesau sy'n derbyn cefnogaeth grant ymrwymo i gydymffurfio gydag amodau gwahanol gan gynnwys rhai gyda'r iaith Gymraeg ac eraill megis talu'r cyflog byw. Eglurwyd bod yr amodau iaith Gymraeg yn adlewyrchu gwerthoedd craidd ac ymroddiad y Cyngor tuag at sicrhau bod yr iaith yn parhau a ffynnu yn ein cymunedau. Ategwyd hefyd eu bod yn adlewyrchu polisi iaith y Cyngor a'r ddyletswydd statudol i gydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg.

11.

Economi a Chymuned

Derbyniwyd cwyn bod swyddogion Cyngor Gwynedd yn ymateb i gwestiynau a ofynnwyd mewn cyfarfod yn y Gymraeg, yn hytrach nag ateb yn yr iaith a ddefnyddiwyd i ofyn y cwestiwn sef Saesneg.

Eglurwyd bod swyddogion yn dilyn polisi iaith Gymraeg y Cyngor ac felly yn siarad Cymraeg mewn cyfarfodydd cyhoeddus. Ategwyd bod darpariaeth cyfieithu ar y pryd ar gael i'r rhai sydd ddim yn deall Cymraeg.

12. Tai ac Eiddo

Derbyniwyd cwyn drwy law aelod am lythyr uniaith Saesneg a dderbyniodd ei etholwr gan yr Adran Tai ac Eiddo.

Adroddwyd bod yr adran fel arfer yn anfon llythyrau ar gyfer Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn y Gymraeg a'r Saesneg, mewn ffurf ar wahân, oherwydd cynnwys dwys y llythyr. Yn yr achos hwn, yn anffodus, arweiniodd diffyg staffio'r gwasanaeth at gamgymeriad gweinyddol. Ymddiheurwyd ac anfonwyd fersiwn Cymraeg yn syth. Atgoffwyd staff o'r angen i'r holl staff ddilyn y Polisi Iaith a Safonau'r Gymraeg ym mhob achos.

Ymholiadau

13.

Cefnogaeth Gorfforaethol

Derbyniwyd ymholiad gan aelod o'r cyhoedd a oes modd i'r Cyngor wneud unrhyw beth ynghylch enwau creigiau Saesneg sy'n cael eu defnyddio ar fapiau OS.

Adroddwyd bod ymrwymiad cadarn wedi ei wneud i warchod enwau lleoedd Cymraeg drwy sefydlu'r Prosiect Gwarchod Enwau Lleoedd. Er nad oes gan Gyngor Gwynedd gyfrifoldeb na phwerau statudol am fapiau cyrff neu sefydliadau eraill fel yr OS nodwyd bod ymdrech wedi'i wneud i ddylanwadu ar eraill i geisio newid y drefn o safbwynt diweddarau mapiau a defnyddio enwau Cymraeg.

14.

Cefnogaeth Gorfforaethol

Derbyniwyd galwad ffôn gan aelod o'r cyhoedd yn holi pam bod y Cyngor yn defnyddio un 'c' yn hytrach na dwy 'c' yn enw Cricieth

Eglurwyd bod sawl ffurf i rai enwau a sawl sillafiad gwahanol ond bod y Cyngor yn ceisio cysoni'r enwau a ddefnyddir yn fewnol ac yn allanol. Eglurwyd mai dyma sy'n cael ei argymhell gan Gomisiynydd y Gymraeg yn eu rhestr enwau lleoedd.

15.

Priffyrdd, Peirianeg ac YGC / Cefnogaeth Gorfforaethol

Cafwyd cais gan aelod o'r cyhoedd i newid ei chyfeiriad i gynnwys un 'c' yng Nghricieth yn hytrach na dwy 'c' ar holl systemau Cyngor sy'n cynnwys ei chyfeiriad.

Eglurwyd bod nifer o systemau technoleg gwybodaeth gwahanol gan y Cyngor sy'n cadw gwybodaeth am gyfeiriadau ac na ellir diwygio pob un ar unwaith. Ategwyd bod gwaith yn cael ei wneud i geisio cysoni enwau lleoedd a ddefnyddir gan staff a bod y Cyngor yn arddel yr enw Cricieth efo un 'c' . Dyma hefyd sydd yn rhestr enwau llefydd Comisiynydd y Gymraeg. Fodd bynnag pwysleisiwyd bod y Cyngor yn parchu hawl eraill i ddefnyddio dwy c os ydynt yn dymuno.

CH) TROSOLWG CYFFREDINOL SGILIAU IAITH

Yn yr adran hon, ceir trosolwg o ddata yn ymwneud â sgiliau iaith staff a dynodiadau iaith swyddi. Yn unol â'n Polisi Iaith Gymraeg, mae Cyngor Gwynedd yn dilyn yr egwyddorion canlynol:

- *Mae'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn sgil **hanfodol** ar gyfer pob swydd o fewn y Cyngor.*
- *Rhaid i ofynion ieithyddol pob swydd gael eu hasesu yn erbyn y fframwaith iaith.*
- *Bydd cyfweiliadau ar gyfer y swyddi'n cael eu cynnal yn Gymraeg.*
- *Rhaid cynnal asesiad o sgiliau iaith pob aelod o staff, naill ai wrth iddynt gael eu penodi, neu fel rhan o drefniadau anwytho.*

I gyd-fynd â phwrpas yr adroddiad hwn, bydd y data yn adrodd ar staff prif adrannau'r Cyngor yn unig, gan eithrio staff GwE, Asiantaeth Cefnffyrdd, Byw'n Iach, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a staff ysgolion Gwynedd, gan nad ydynt yn gweithredu o dan y safonau. Mae'r gwaith o gasglu gwybodaeth am unigolion (aelodau staff) yn waith parhaus, ac **ni fydd y ffigyrau a nodir byth yn adlewyrchu union nifer y staff sy'n cael eu cyflogi gan y Cyngor**. Anelir, fodd bynnag, i gael y darlun cywiraf posib o sgiliau'r gweithlu ar unrhyw gyfnod. Mae trosiant staff, newidiadau mewn swyddi, ailstrwythuro, ac unigolion sydd yn dal mwy nag un swydd o fewn y Cyngor i gyd yn ffactorau sydd yn effeithio ar gywirdeb y data.

Mae'r system sgiliau iaith yn casglu a storio gwybodaeth am ddynodiadau iaith swyddi a sgiliau iaith staff. Golyga hyn y gallwn weld faint o staff sydd efo'r sgiliau iaith cyfatebol i ddynodiad y swydd a chynhyrchu adroddiadau byw, er mwyn tracio cynnydd a newidiadau ar draws adrannau.

Safon 154: Adrodd ar nifer swyddi y hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn yn ôl pob "categori"

Mae **pob swydd** a gaiff ei hysbysebu gan y Cyngor yn nodi gofynion iaith fel sgil **hanfodol**, h.y. mae angen rhyw elfen o sgiliau iaith ar gyfer pob swydd yn y Cyngor.

Bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol = (nid yw'r nifer hwn yn cynnwys ail-hysbysebu)	850
Bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd =	0
Bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol =	0
Nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol =	0

Safon 151: Adrodd ar nifer y staff sydd efo sgiliau yn y Gymraeg

Gwelir yma fod 98.9% o staff y Cyngor gyda sgiliau yn y Gymraeg sy'n ostyngiad o 0.5% ers llynedd.

	2022-23		2023-24	
Nifer yr aelodau staff (sydd wedi eu hasesu ar y system sgiliau iaith)	3886		4000	
Staff sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg (o unrhyw fath)	2726	99.4%	3957	98.9%
Staff heb unrhyw sgiliau yn y Gymraeg	15	0.6%	43	1.1%


Fodd bynnag o edrych ymhellach yn ôl gwelwn fod y canran wedi gostwng dros y 6 mlynedd diwethaf o 6% yn 2018/2019 i 1.1% yn 2023/2024.

	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24
Staff heb sgiliau Cymraeg	6% (234)	0.1% (4)	0.3% (7)	0.9% (26)	0.6% (15)	1.1% (43)

Lefelau iaith y staff fesul adran:

Mae'r graff a'r tabl isod yn dangos lefel iaith staff fesul adran.

Lefelau iaith staff fesul adran



	Addysg	Amgylchedd	Cyllid	Cefnogaeth Gorforaethol	Economi a Chymuned	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Plant a Chefnogi Teuluoedd	Prifffyrdd, Peirianeg a YGC	Tai ac Eiddo	Tim Arweinyddiaeth Corfforaethol
Hyfedredd	287	121	143	129	111	355	266	127	94	35
Uwch	138	72	73	86	58	253	103	102	71	11
Canolradd	51	20	5	5	11	87	19	22	19	1
Sylfaen	40	4	2	1	1	48	9	5	4	0
Mynediad	39	7	0	1	0	73	4	3	7	0
Dim sgiliau	15	0	0	0	1	23	1	1	2	0

Dynodiadau Iaith

Pob chwarter, mae tîm rheoli pob adran yn y Cyngor yn derbyn adroddiad gan y gwasanaeth Dysgu a Datblygu sy'n nodi'r darlun diweddaraf parthed nifer y staff sy'n cyrraedd dynodiadau iaith eu swydd a'u sgiliau iaith. Yn dilyn hyn, cynhelir cyfarfod o'r Fforwm Dynodiadau Iaith gyda chynrychiolaeth o'r holl adrannau er mwyn trafod canfyddiadau'r adroddiadau a sut i wella'r broses o gasglu asesiadau a thargeddu hyfforddiant.

Mae'r Holiadur Hunanasesiad Sgiliau Iaith yn gorwedd ym mhorthol Hunanwasanaeth Staff y Cyngor, gyda'r Fforwm wedi adnabod anhawster mynediad ymysg staff heb gyfrif e-bost sy'n golygu nad ydynt yn cwblhau'r hunanasesiad. Mae'r sefyllfa wedi'i chydabod mewn cynllun digidol sy'n mynd i sicrhau cyfeiriad e-bost swyddogol i bob aelod o staff maes o law.

Yn y cyfamser drwy drafodaethau'r Fforwm, cynhaliwyd peilot o asesiad syml i'w lenwi gan reolwyr ac unigolion ar y cyd gydag Adran Priffyrdd y Cyngor - a ymgyrchodd dros gyfnod o 3 mis i geisio sicrhau bod pob aelod o staff yn cael eu hasesu. Cododd lefel ymateb yr Adran o 58% i 96 % gan adnabod 13 aelod o staff nad oedd yn cyrraedd Dynodiadau Iaith eu swyddi. O'r rhain mae 4 eisoes yn dilyn cwrs hyfforddiant sgiliau Cymraeg ac eraill wedi, neu am gael ymgynghoriad 1 i 1 efo Swyddog Dysgu a Datblygu Cymraeg er mwyn eu cefnogi i gyrraedd y dynodiadau iaith.

Nifer y staff sy'n cyrraedd dynodiad eu swydd


Gwelwn yma fod 92% o staff yn cyrraedd dynodiad iaith eu swydd sy'n gynnydd o 1% ers y flwyddyn flaenorol.

	2022-23		2023-24	
Staff sy'n cyrraedd Dynodiadau Iaith eu swydd	2679	91%	2962	92%
Staff nad ydynt yn cyrraedd Dynodiadau Iaith eu swydd	253	9%	275	8%

Asesu a Gosod Lefelau Iaith Swyddi – nifer y swyddi ar draws y Cyngor sydd wedi’u dynodi fesul lefel:

Er bod y Gymraeg yn sgil hanfodol ar gyfer pob swydd o fewn Cyngor Gwynedd, ceir dynodiadau iaith amrywiol o fewn y swyddi hynny gyda’r union ddynodiad yn dibynnu ar natur y swydd a’r cyswllt â’r cyhoedd.

Mae’r tabl isod yn amlygu dynodiadau iaith sydd wedi’u gosod ar gyfer swyddi cyfredol ar draws y Cyngor, gan gyfrifo’r lefel siarad a gwranddo fel ‘prif lefel’, y lefel uchaf fel rheol, gan i lefel iaith amrywio rhwng y naill sgil a’r llall o fewn un swydd. Gwelir data 2022/23 wrth ochr data 2023/24.



Uwch yw’r lefel uchaf a osodir ar gyfer dynodiad iaith swydd, ond mae posib i sgiliau iaith yr unigolion gael eu hasesu ar lefel Hyfedredd. Mae hyn yn golygu bod nifer fawr o staff yn meddu ar sgiliau iaith sy’n uwch na’r angen ar gyfer eu swyddi. Ar gyfer y tabl hwn, mae’r lefel Uwch a Hyfedredd wedi’u categoreiddio gyda’i gilydd.

Wrth gymharu data eleni â’r un data o 2022/23, noder bod gostyngiadau sylweddol yn nifer y swyddi sydd wedi’u nodi gyda lefel iaith Mynediad, gyda gostyngiad o 73%. Mae nifer y swyddi sy’n cael eu dynodi i fod yn lefelau Uwch a hyfedr wedi dyblu dros y flwyddyn gyda 85% o swyddi yn galw am y dynodiad iaith hwn. Tabl sydd yn dangos datblygiad cadarnhaol iawn o fewn blwyddyn.

D) HYFFORDDIANT

Yn yr adran hon, ceir trosolwg o ddata yn ymwneud â hyfforddiant o fewn Cyngor Gwynedd. Yn unol â'n Polisi Iaith Gymraeg, mae Cyngor Gwynedd yn dilyn yr egwyddorion canlynol:

- **Bydd pob hyfforddiant a gynigir gan y Cyngor yn cael ei ddarparu yn Gymraeg.**
- **Cymerir pob cam i helpu staff i gymryd rhan yn yr hyfforddiant Cymraeg.**
- **Ni fydd hyfforddiant Saesneg yn cael ei gynnig ar gyfer pynciau craidd oni bai bod gwir angen.**

Dim ond pan fydd angen hyfforddiant mewn meysydd arbenigol, a phrynu gwasanaethau hyfforddwyr arbenigol i mewn y bydd hyfforddiant uniaith Saesneg yn cael ei gynnig. Hyd yn oed bryd hynny, gwneir pob ymdrech wrth gomisiynu gwasanaethau i gael deunyddiau dwyieithog a chymerir pob cyfle i geisio dylanwadu ar ddarparwyr cenedlaethol i wella darpariaeth hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i'r sector cyhoeddus yn gyffredinol.

Safon 152: Adrodd ar nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi

Hyfforddiant Cyffredinol

Er i'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu ddarparu hyfforddiant i adrannau eraill o fewn y Cyngor, mae'r data isod yn adrodd ar yr hyfforddiant a ddarparwyd i adrannau canolog sy'n atebol i ofynion y Safonau.

Nifer digwyddiadau unigol rhwng 01.04.23 a 31.03.24 - **262**


Nifer y teitlau (lefel Swydd/Sefydliad) rhwng 01.04.23 a 31.03.24 - **44**

Gwelir bod nifer y cyrsiau hyfforddiant Saesneg a dwyieithog wedi gostwng yn sylweddol o gymharu â'r llynedd.


Hyfforddiant Cyffredinol - nifer digwyddiadau

Y newid ers 2020:

	NIFER DIGWYDDIADAU			
	20/21	21/22	22/23	23/24
Cymraeg	289	524	428	223
Saesneg	305	402	295	44
Dwyieithog	92	46	169	4



Hyfforddiant Cyffredinol - nifer o fynychwyr



Y newid ers 2020:

	NIFER O FYNICHWYR			
	20/21	21/22	22/23	23/24
Cymraeg	1044	1612	1409	962
Saesneg	796	1032	881	274
Dwyieithog	453	159	519	18

Safon 128 - Adrodd ar hyfforddiant Cymraeg

Sicrhawyd bod staff yn cael cyfle i fynychu hyfforddiant Cymraeg yn yr amrywiol feysydd a nodir yn Safon 128 yn ystod y flwyddyn. Ceir yma fanylion nifer y staff a fynychodd weithdai croeso a derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith.

73 unigolyn wedi mynychu'r gweithdy croeso yn y cyfnod 01.04.23 – 31.03.24
6 digwyddiad wedi ei gynnal.

Pob un trwy gyfrwng y Gymraeg ac wyneb yn wyneb.

Nifer sesiynau ymwybyddiaeth iaith yn ystod y flwyddyn - 0

Nifer staff sydd wedi cwblhau'r e-fodiwl Ymwybyddiaeth iaith - lefel Cyngor ac adran - 522

Hyfforddiant a ddarparwyd gan y Cyngor ar gyfer y Gwasanaeth BYW'N IACH:

Nifer digwyddiadau unigol rhwng 01.04.23 a 31.03.24 – 29

Nifer y teitlau rhwng 01.04.23 - 31.03.24 - 9

DIGWYDDIADAU HYFFORDDI	NIFER	MYNYCHWYR UNIGRYW
Cymraeg	19	22
Saesneg	10	16
Dwyieithog	0	0

Safon 130: Adrodd ar y cyfleoedd i ddysgu Cymraeg

Niferoedd Hyfforddiant iaith i staff

Mae'r Cyngor yn cefnogi staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a thrwy'r prosiect dynodiadau iaith, mae modd cydnabod y staff sydd angen cefnogaeth, gyda chyllid ar gael i gynorthwyo â'r costau hynny. Mae'r data isod yn adlewyrchu'r nifer o staff sydd wedi mynychu cyrsiau fesul lefel yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

<u>Gloywi</u>	<u>Uwch</u>	<u>Canolradd</u>	<u>Sylfaen</u>	<u>Mynediad</u>	<u>Blasu</u>
30		6	6	22	3

Cyrsiau yn cynnwys rhai mewnol, cymunedol, rhithiol, hunan astudio, dwys a chomisiynau.

HERIAU WRTH SYMUD YMLAEN

Strategaeth Iaith

Gyda Strategaeth Iaith mewn lle, bydd angen datblygu'r rhaglen waith ymhellach a gweithredu'r cynlluniau. Bydd swyddogion yr Uned Iaith yn cyfarfod penaethiaid adran er mwyn sicrhau bod eu cynlluniau a'u blaenoriaethau yn cyfrannu at amcanion y strategaeth newydd. Bydd angen hefyd sicrhau bod trefniadau monitro priodol yn eu lle. Gobeithiwn hyrwyddo gwaith yr Uned Iaith ymhellach wrth rannu cynnwys y Strategaeth Iaith a'r prosiectau ymhellach ar gyfryngau cymdeithasol ac yn y wasg.

Hyfforddiant

Rhodddwyd sylw penodol dros y flwyddyn ddiwethaf, i leihau nifer y cyrsiau hyfforddiant uniaith Saesneg a dwyieithog gafodd eu cynnig. Braff yw gweld bod y nifer wedi gostwng a bod mwyafrif yr hyfforddiant sy'n cael eu cynnig yn cael eu cynnal yn Gymraeg. Serch hynny bydd angen cydweithio ymhellach gyda Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r sefydliad er mwyn adnabod y cyrsiau sy'n cael eu cynnal yn Saesneg a cheisio sicrhau eu bod ar gael yn y Gymraeg.

Byddwn yn adeiladu ar ymwybyddiaeth iaith ymysg staff a chynghorwyr, wrth hyrwyddo'r e-fodiwl mandadol ac ail-afael mewn sesiynau ymwybyddiaeth iaith byw, gan sicrhau eu bod yn gyfredol a chyfoes. Mae sesiwn eisoes wedi ei threfnu i gynghorwyr am eu rôl o fewn y gymuned o safbwynt y Gymraeg, wrth gydnabod bod negeseuon gwahanol i'w rannu gyda'r rhai sy'n ddi-Gymraeg.

Codi ymwybyddiaeth am ofynion y Safonau

Byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth staff a thrigolion y Cyngor o Safonau'r Gymraeg a Pholisi Iaith Gymraeg Cyngor Gwynedd. Yn ogystal â pharhau i rannu nodweddion o'r polisi i staff yn y gair wythnosol, byddwn yn sicrhau bod y dogfennau yn hygyrch ac n hawdd i ddod o hyd iddynt ar wefan y cyngor a'r fewnwyd staff.

Byddwn hefyd yn manteisio ymhellach ar dudalennau cymdeithasol yr Uned Iaith er mwyn trosglwyddo'r negeseuon. Wrth dderbyn hunanasesiadau adrannol blynyddol i adrodd ar gydymffurfiaeth â'r safonau, byddwn yn medru gweithredu ar yr heriau i godi ymwybyddiaeth staff o'r gofynion, fel bo'r angen. Yn dilyn trafodaeth gyda'r adrannau am ddiffyg ymwybyddiaeth am safonau'r Gymraeg ymysg rheolwyr rhai gwasanaethau, byddwn yn cynnal hyfforddiant byr i'w hatgoffa o'r prif faterion. Mae hwn yn waith parhaus gan fod trosiant staff yn her.

Staff heb sgiliau Cymraeg

Gwelwyd cynnydd yn nifer y staff sydd heb sgiliau Cymraeg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. O ganlyniad byddwn yn ymchwilio i'r rhesymau tu ôl i hynny ac yn ystyried sut y gellir ceisio sicrhau bod y canran o staff heb sgiliau Cymraeg yn gostwng yn ystod y flwyddyn nesaf.

Mesur defnydd y cyhoedd o wasanaethau Cymraeg

Byddwn yn edrych ar sut i dreialu ffyrdd o fesur faint o drigolion sy'n dewis defnyddio gwasanaethau'r Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg mewn mannau fel derbynfeydd Siop Gwynedd, llyfrgelloedd, chanolfannau hamdden ac ar-lein. Gobeithir hefyd cael cyfle i edrych ar ganlyniadau ymchwil a wnaed dan ofal Prifysgol Bangor, gyda chymorth y Cyngor, sy'n edrych ar agweddau pobl tuag at ddefnyddio gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Hyderir y bydd hyn yn gwella ein dealltwriaeth o sut y gallwn ni ddylanwadu ar benderfyniadau ac annog mwy o bobl i ddefnyddio'r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg (yn enwedig rhai digidol/ar-lein) sydd yn cael eu darparu gan y Cyngor.

Eitem 9

Adroddiad Cynnydd

Prosiect Enwau Lleoedd Cyngor Gwynedd







Prosiect Enwau Lleoedd

Sefydlwyd y prosiect gan Gyngor Gwynedd yn sgil pryderon cynyddol dros nifer o flynyddoedd bod enwau brodorol Cymraeg yn eu colli am nifer o resymau. Yn 2021 penodwyd Swyddog penodol i weithio ar y prosiect. Ers hynny mae'r prosiect wedi cyflawni llawer:

Map Enwau Lleoedd

Map ar y we yw **Map Enwau Lleoedd Cyngor Gwynedd** sydd yn nodi enwau lleol ar lefydd o fewn y sir. Yr enwau hynny sydd yn fyw ar lafar ond heb erioed gael eu cynnwys ar fapiau swyddogol – enwau caeau, lonydd, adeiladau, ardaloedd, afonydd ac yn y blaen.



Mae'r map yn parhau i gael ei boblogi gyda lluo o enwau difyr yn sgil gweithdai mewn **15 ysgol gynradd** ac **un ysgol uwchradd**. Mae nifer o unigolion sydd â gwybodaeth drylwyr am eu hardaloedd hefyd wedi bod yn llwytho enwau i'r Map sydd hyd yn hyn yn cynnwys dros **670** o enwau lleol.

Mae adnodd addysg '**Map Ynys Dychmygol**' wedi ei greu yn arbennig ar gyfer dosbarthiadau ysgol er mwyn ennyn diddordeb mewn mapiau ac enwau lleoedd a hynny o fewn ardal agos i'r ysgol. Mae cerdd benodol hefyd wedi ei llunio i gyd-fynd â'r sesiwn.

Yn Ysgol Tryfan, Bangor, yn ateb i'r cwestiwn a roddwyd i ddisgyblion Blwyddyn 7 '*Beth oedd uchafbwynt eich tymor?*' cafwyd yr ymateb unfryd '*Sesiwn mapiau Mei Mac!*'

Bu'r Swyddog Prosiect yn trafod y Map gyda swyddog o Gyngor Dinas a Sir Waterford, Iwerddon. Bellach mae ganddynt hwythau fap cyffelyb yn yr iaith Wyddeleg.

Ynys yr enwau

Dyma ynys sydd yn llawn o hanesion ond does ganddi ddim enw!

Dy waith di fydd dewis enw iddi ynghyd ag enw i unihyw naw lle ar yr ynys. I dy helpu dyma ydychydig o wybodaeth am lle.

Ochwyn wrth dy drwsell
Mae nifer o gliwtau a sgriniau da am enwau addas i'w cael o hanes neu bethau daearyddol. Efallai bod aderyn neu anifail neu blant hysgus yn cymryd enw! Neu hanes un o'i bobol i'u byw ar yr ynys?

Yn 1765 suddodd llong o'r enw 'Yr Helen' oddi ar ogledd yr ynys. Colodd 20 o ddynion ifanc eu bywydau yn y llongyddyllad.

Ben bore, mae'r Tylwyth Teg i'w gweld ar y traeth sydd ar orllewin yr ynys - meddan nhw!

Mae pobl wedi prysgota gormod yn y llyn dros y blynyddoedd ac nid oes unihyw bysgod yn byw ynddo bellach.

O amgylch y llyn mae coes, trî gwyb sy'n gartref i lawer o iodaau a phlanhigion gwylt.

Ar draethau de'r ynys mae llawer o wyron yn hel ar ôl stormydd. Yna hysgysu cerbydau cerbydau melyn a chorh ym mhob man.

Mae hen blas mawr ar orllewin yr ynys lle roedd Mr Edward Allan Hearts yn byw. Daeth yna i fyw o Texas, America yn y 1980au gyda'r arlan.

Ynys
Oes trysor yn rhywle ar yr ynys? Ble tybost? A beth yn e' trysor gwerthfawr?

Dyma'r symbolau sy'n ymddangos ar y map:

- Llongyddyllad
- Eglwys
- Lwybr troed
- Clogwyn serth
- Coedwig
- Llyn/pwll
- Ffordd/fôn
- Cors/trî gwyb
- Adelfad
- Traeth
- Goleudy
- Alon

Ar y map mawr rho enw i'r ynys yn y blwch ar y top. Yna, gwnta gylich mewn 9 lle a rho rîf ym mhob cylch fel hyn. Yn y blychau isod, rho dy enwau di i'r 9 lle.

-
-
- Clogwyn Plas
-
-
-
-
-
-
-

Newid

Does neb yn cofio'r marchog
Fu'n crwydro'r caeau hyn,
Yn arwain gwŷr i ryfel
Ar gefn ei geffyl gwyn.
Fe aeth holl stori'r brwydro blin
Pan aeth 'Bryn Cledd' yn 'Hazeldean'

A beth am y ddau gariad
A foddodd yn y llyn
Y bore wedi'r briodas
Ar goll mewn eira gwyn?
Diflannodd hanes eu mis mêl
Pan aeth 'Llwyn Serch' yn 'Willow Dale'.

A chwedl Dafydd Esgryn,
Y 'sgotwr dau gant oed
A ddaliodd gyda'i ddwylo
Yr eog mwyaf' rioed.
Does neb yn dweud ei hanes o
Ers troi 'Pwll Du' yn 'Tally Ho!'.

Nid dim ond enwau a gollwyd
Ar hyd yr ardal hon
Ond calon bro, ei harddwch,
Ei llais, ei henaid bron;
Os dewch i fyw i'n canol ni
Newidiwch ddim ar ddim da chi.

Meirion MacIntyre Huws
2022

Hybu ac hyrwyddo

Er mwyn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd enwau lleoedd a'r cyfoeth hanesyddol, ieithyddol a diwylliannol maen nhw'n eu cynnwys mae'r prosiect wedi bod yn:

cynnal sgysrsiau ysbeidiol ar Radio Cymru ynghylch enwau lleoedd.

postio deunydd ysgafn a diddorol ar y gwefannau cymdeithasol

cyhoeddi erthyglau 'Yr Enw a'r Hanes' ar Fewnryw y Cyngor yn nodi hanes enw lle o fewn y Sir. Dyma'r dudalen sydd yn cael i nifer mwyaf o ymwelwyr o holl dudalennau'r Fenwryw.



Eisteddfod Genedlaethol Boduan 2023

Ar stondin Cyngor Gwynedd ar Faes Prifwyl Boduan, 202 bu'r Swyddog Prosiect Enwau Lleoedd yn:

- aelod o banel trafod cenedlaethol (a drefnwyd gan y Prosiect Enwau Lleoedd) yng nghwmni Jeremy Miles AS, (Gweinidog y Gymraeg) a Dr Dylan Foster Evans (Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru). Yn cadeirio roedd y darlledwr Bedwyr Rees.
- siarad am enwau lleoedd ac acenion lleol ar raglen hwyrol ar BBC Radio Cymru
- cadeirio sgwrs yn y Babell Lên ar enwau lleol i'r Brifwyl. Darlledwyd pigion o'r sgwrs ar S4C.

Arwyddion

Am wahanol resymau, sydd wedi eu hadrodd mewn manau eraill, aeth newid cyfeiriad ar y bwriad gwreiddiol gan y Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor i geisio cael arwyddion stryd Cymraeg yn unig drwy'r sir. Mabwysiadwyd 'bwriad amgen' sydd yn cynnwys nifer o gynlluniau:

Gosod arwyddion enwau lleol yn Twthill (Caernarfon), Lôn Rocar (Llandygai) Maes-y-Groes (Bethesda) a Lôn Groes (Pistyll).

Yn dilyn cyfarfodydd gyda Chymdeithas Ddinesig Caernarfon mae'n fwriad codi arwyddion yn nodi'r hen enwau Cymraeg ar rai o strydoedd yr hen dref gaerog.

Mae sgysiau cychwynnol ar y gweill chynghorydd pentref Trefor i gael gosod arwyddion Cymraeg yn unig ar strydoedd yno, gan fod nifer o arwyddion ar goll.

Gyda chyd-weithrediad cynghorydd pentref Trefor bwriedir gosod arwyddion wrth gyrraedd hen gantrefi/cymydau (e.e., Arllechwedd a Dunoding) ar ffyrdd 'A', hynny yn sgil y diddordeb yn yr arwyddion 'Llŷn' a ymddangosodd yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Boduan, 2023.

Yn sgil trafodaethau gyda'r Comisiynydd Iaith a Llywodraeth Cymru, cafwyd llwyddiant gyda deddfwriaeth i roi'r hawl i bentrefi a threfi gael arwyddion 'Croeso' uniaith Gymraeg am y tro cyntaf erioed. Bydd llythyr yn hysbysu Cynghorau Tref y Sir o'r datblygiad hwn yn cael ei anfon at glerc cod cynghorau maes o law.

Mae 'Ap' Enwau Gwynedd wedi ei greu, mewn cydweithrediad ag adran TG y Cyngor. Byddyr ap yn cael ei osod ar Fewnrwyd y Cyngor i staff droi ato i wirio sillafiad enwau lleoedd. Bydd hwn o

gymorth wrth ddefnyddio'r enwau fydd yn cael ei harddel gan y Cyngor o hyn allan mewn gohebiaeth mewnol ac allanol.

Gwaith ymchwil wrthi'n cael ei gynnal i osod arwyddion ar bontydd ac afonydd lle mae enwau Saesneg wedi dechrau ennill eu plwyf ar fapiau a llawlyfrau teithio.

Cyd-weithio a chyrrff/mudiadau allanol

Mae'r Swyddog Prosiect y parhau i gyfarfod fel aelod o **Fforwm Enwau Lleoedd Cymru**, gyda chynrychiolwyr o syddfa Comisynydd y Gymraeg, Llywodraeth Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri a rhai swyddogion o gynghorau Sir eraill.

Cynhelir sgysiau misol gyda Mapio Cymru gyda'r gobaith o gael mapiau digidol Cymraeg fel sylfaen i fapiau Cyngor Gwynedd.

Mae Parc Cenedlaethol Eryri hefyd yn gweithio ar warchod enwau lleoedd o fewn yr amgylchedd tir a nodweddion daearyddol felly mae cyd-weithio gyda nhw i rannu syniadau ac i osgoi dyblygu gweithgareddau.

Gweithio gydag adrannau mewnol

Yn wythnosol mae'r prosiect yn cynghori Rheolaeth Adeiladu ar faterion yn ymwneud ag enwi eiddo/strydoedd/ysgolion/stadau.

Cyhoeddwyd Llyfryn 'Enwi eiddo – Ymarfer Da' yn egluro pwy sy'n gyfrifol am beth ar faterion newid eiddo/strydoedd ac ati. Hefyd cyhoeddwyd taflenni yn annog defnyddio enwau Cymraeg ar eiddo i'w hanfon allan pan fydd y Cyngor yn derbyn cais i newid enw.

Rhan arall o'r prosiect yw mateb i geisiadau gan wahanol adrannau am enwau a/neu sillafiad cywir lleoedd yng Ngwynedd. Hyd at Ebrill 2024 mae'r Swyddog wedi ymgynghori ar tua 80 o enwau tai ynghyd a chynghori ar ddilysrwydd cyfeiriad, enw stryd, côd post, a materion eraill yn ymwneud â chyfeiriadau ac enwau eiddo.

Hefyd mae ymateb i gwynion amrywiol eu natur gan y cyhoedd sy'n pryderu am gamddefnydd o enwau Cymraeg a/neu enwau'n cael eu disodli gan rai Saesneg.



Ar y gorwel

Podlediad Bwrlwm Arfor yn trafod arwyddocâd enwau lleoedd â thafodieithoedd el rhan o hunaniaeth Gymreig

Erthygl i gylchgrawn AHNE Llŷn 'O Dan y Don' – enwau lleoedd a'u cyswllt a'r môr.

